# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD

## DATGANIAD O DIR CYFFREDIN RHWNG:

## Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

## A

## Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

Yn ymwneud â pholisïau a datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r adeiladu niwclear newydd arfaethedig yn yr Wylfa, Ynys Môn.

**Fersiwn: Terfynol**

## 1 CEFNDIR

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd ("y Cynghorau") wedi sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ("UPCC") i symud ymlaen y cynllun datblygu lleol ar y cyd. Cyhoeddwyd y Cynllun Adnau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a ddaeth i ben ar 31 Mawrth, 2015.

1.2 Bwriada Horizon Nuclear Power Wylfa Ltd (“Horizon”) (Rhif adnabod Archwilio: 2919) wneud cais am ganiatâd datblygu i adeiladu a gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd yn yr Wylfa yn Ynys Môn. Ynghyd â'r cais am ganiatâd datblygu, bydd angen hefyd am nifer o geisiadau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer datblygiadau cysylltiedig gan gynnwys, gwelliannau priffyrdd, cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg a llety gweithwyr dros dro yn ogystal â gwaith paratoi'r safle a chlirio.

1.3 Gwnaeth Horizon sylwadau ar y Cynllun Adnau a oedd yn cynnwys cynnig i greu cyfres o bolisïau penodol i Wylfa Newydd yn hytrach na bod elfennau o'r datblygiad (yn arbennig y datblygiadau cysylltiedig) yn cael eu cwmpasu gan y polisïau cyffredinol. Ni dderbyniwyd y dull hwn gan y Cynghorau.

1.4 Ymgynghorodd yr UPCC ar y newidiadau â ffocws i'r Cynllun Adnau o 25ain Chwefror i 13eg Ebrill 2016. Yn eu hymateb i’r newidiadau â ffocws, cynhwysodd Horizon nifer o newidiadau manwl i'r cynllun arfaethedig y dadleuwyd oedd eu hangen yn lle polisïau penodol Wylfa Newydd. Ymatebodd yr UPCC i'r cynigion hyn yn eu sylwadau ar yr ymatebion i newidiadau â ffocws (Mehefin 2016).

1.5 Cynhelir nifer o wrandawiadau i’r Cynllun arfaethedig ym mis Medi 2016. Mae Horizon wedi gofyn am gael cymryd rhan yn sesiynau 1 (Paratoi’r cynllun, gweledigaeth a strategaeth), 2 (Darpariaeth Tai), 5 (Economi - cyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth), 6 (Amgylchedd hanesyddol a naturiol), a 9 (Wylfa).

## 2 PWRPAS Y DATGANIAD

2.1 Er mwyn cynorthwyo'r Arolygwyr o ran egluro materion y mae'r Cyngor a Horizon yn cytuno arnynt, paratowyd y Datganiad o Dir Cyffredin hwn. Mae’n nodi'r pwyntiau yn sylwadau Horizon sydd bellach wedi’u datrys neu eu cytuno rhwng y partïon.

2.2 Amlinellir y prif bwyntiau o wahaniaeth sy'n weddill rhwng y partïon yn fyr yn yr atodiadau i'r datganiad hwn.

| | Rhif Newid â Ffocws | Mater | Safle a gytunwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | NF1 | Pennod 1 Crynodeb Gweithredol<br><br>Ceisiodd Horizon ddiwygiad i Bennod 1 Crynodeb Gweithredol, Tabl 3 Ciplun o bolisïau rheoli datblygiad Pennawd: Byw cynaliadwy Is-bennawd: Cefnogi'r sector ynni i ddarllen:<br><br>Cefnogi'r sector ynni - trwy gefnogi datblygiad (e.e. niwclear, biomas, pŵer solar a datblygiadau gwynt) lle mae unrhyw effeithiau andwyol sylweddol wedi cael eu hosgoi (e.e. sŵn, ansawdd aer, traffig ac effaith weledol) <u>neu eu lleddfu i lefelau priodol.</u> | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF1. |
| 2 | NF2 | Pennod 3 Cyd-destun polisi<br><br>Ceisiodd Horizon ddiwygiad i Bennod 3 Cyd-destun polisi i egluro effaith tebygol Mesur Cymru ar sut y gellir caniatáu "datblygiadau cysylltiedig" yng Nghymru, o gofio y bydd Mesur Cymru yn debygol o gael cydsyniad brenhinol yn fuan ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. | Cytunodd y partïon yn bydd NMC yn cael ei gynnig i fewnosod paragraff newydd 3.7b fel a ganlyn:<br><br>"3. Cydnabyddir y byddai Mesur Cymru sy'n cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd yn galluogi rhoi caniatâd i ddatblygiadau cysylltiedig i Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd ynni Cymru gyda chapasiti cynhyrchu o fwy na 350MW dan Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO)." |
| 3 | NF4 | Pennod 5 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol<br><br>Ceisiodd Horizon ddiwygiad i Bennod 5 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol Paragraff 5.4 drwy fewnosod paragraff newydd yn darllen:<br><br>Mae'r Cynghorau yn ystyried bod Prosiect Wylfa Newydd yn rhoi cyfle unigryw a digynsail i Ynys Môn a hyrwyddwyr y prosiect i gydweithio i gyfrannu i drawsnewid cymdeithasol-economaidd Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy, gwella ansawdd bywyd cenedlaethau presennol a'r dyfodol a chryfhau hunaniaeth a gwahanolrwydd lleol. | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | NF5 | Pennod 5 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol<br><br>Ceisiodd Horizon ddiwygiad i Bennod 5 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol Paragraff 5.6, pwynt bwled 5 o'r Weledigaeth fel a ganlyn:<br><br>• un sy'n cael ei adnabod fel lleoliad blaenllaw i sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel amrywiol a diwydiannau wedi eu seilio ar wybodaeth a fydd wedi cyfrannu at drawsnewid yr economi leol, gan gynnwys bod yn gartref i bwerdy niwclear newydd a fydd yn cynhyrchu ynni carbon isel a chataleiddio adfywiad yn ardal y Cynllun. | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF5 |
| 5 | NF6 | Pennod 5 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol - Thema 3 Cefnogi twf ac adfywio<br><br>Gofynnodd Horizon am fewnosod amcan strategol newydd sy'n darllen:<br><br>Mae SO[x] yn cefnogi a manteisio ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF6 |
| 6 | NF8 | Pennod 5 Gweledigaeth ac Amcanion Strategol<br><br>Ystyria Horizon bod geiriad Thema 5 yn rhy gaeth. | Mae'r partïon wedi datrys y pwynt hwn trwy'r newid arfaethedig i bolisi PS16 a welir yn llinell 32 y tabl hwn. Nid oes gofyn bellach am y newid hwn. |
| 7 | NF11 a NF12 | Pennod 6 Y Strategaeth, Paragraff 6.26 - 6.28, (Pennawd: Strategaeth Economaidd) | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF11 a NF12 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Roedd Horizon yn ceisio diwygiadau i eiriad paragraffau 6.26 a 6.28 i gynnwys cefnogaeth benodol i Wylfa Newydd fel a ganlyn:<br><br>6.26 Y newid economaidd trawsnewidiol a ragwelir a fydd yn deillio o raddfa unigryw prosiectau Seilwaith ar Ynys Môn a statws yr Ynys fel Ardal Fenter fydd gyrrwr mwyaf y newid gofodol a chymdeithasol dros gyfnod y Cynllun. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn gweithredu fel hwylusydd i ddatblygiad economaidd. Caiff hyn ei gyflawni drwy fframwaith polisi sy'n cefnogi egwyddorion Cynlluniau Strategol pob Awdurdod, Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn a Gwynedd, Cynlluniau Cyflogaeth a Rhaglen Ynys Ynni Môn. Yn benodol, bydd y Cynllun yn hyrwyddo datblygiad amserol Prosiect Wylfa Newydd yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol.<br><br>6.28 […] Mae rôl bwysig gan y Cynllun o ran hwyluso datblygiad cynaliadwy'r prosiectau hyn wrth warchod diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd naturiol unigryw yr ardal. Bydd y Cynghorau, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, hyrwyddwyr prosiect a sefydliadau busnes, yn hyrwyddo a chefnogi datblygu economaidd cynaliadwy | |
| 8 | NF14 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Cymunedau diogel, iach, nodedig a bywiog.<br><br>Cyf Newid â Ffocws: NF 14 paragraff diwygiedig 7.1.3 a chyflwyno'r frawddeg ganlynol, "…Bydd polisïau yn cynorthwyo i sicrhau bod y lefel gywir a math iawn o alw am gartrefi yn cael ei gyfarch a bod pryd fydd datblygiad yn digwydd yn galluogi iddo ddigwydd heb amharu yn arwyddocaol ar gymeriad y gymuned…"<br><br>Ystyria Horizon y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer mesurau lliniaru priodol i wneud iawn am unrhyw "ddifrod" a ellir ei achosi i gymeriad y gymuned.<br><br>Derbyniodd y Cynghorau y gallai cyfeirio at fesurau lliniaru gynyddu eglurder y cynllun ac maent wedi mewnosod cyfeiriad at CCA i ddarparu arweiniad pellach yn hytrach na newid geiriad y cynllun i ymdrin â lliniaru. | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF14 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | NF15 | Polisi PS1: 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig'<br><br>Gwnaeth Horizon nifer o gyflwyniadau ar y polisi hwn yn dilyn newidiadau a wnaed gan NF15. Mae Horizon yn dal i ystyried yn absenoldeb CCA ei bod yn aneglur sut y cymhwysir y prawf polisi hwn. Cynigiodd Horizon ddileu maen prawf (c).<br><br>Hefyd ystyria Horizon nad yw Rhan 2 o'r Polisi PS1 arfaethedig yn ddigon penodol. Mae Horizon eisiau diwygiad i eiriad polisi PS1 fel a ganlyn:<br><br>"POLISI STRATEGOL PS1: YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG<br><br>Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:<br><br>1. Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig yn disgyn i mewn i un o'r categorïau canlynol:<br>a) Datblygiad **twristaidd**, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m sg. neu fwy **ar safleoedd heb eu dyrannu**; neu<br>b) Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r targed tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 14 – 18; neu<br>~~c) Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap nad yw'n cynnig darparu ystod ddigonol o unedau tai o ran eu maint a mathau~~;<br>2. Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig:<br>a) ar safle hap **mewn ardal a nodwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel ardal lle ystyrir bod y Gymraeg o sensitifrwydd neu arwyddocâd arbennig**; a<br>~~b) yn mynd i ddenu neu roi llety i lawer mwy o bobl na ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisïau a chynigion y Cynllun;~~ | Cytuno'n rhannol. Mae meini prawf 1(c) a 2(b) wedi'u dileu.<br><br>Mae'r partïon wedi cytuno i newid geiriad maen prawf 5 fel a ganlyn:<br><br>Gofyn i holl arwyddion ~~gweithredol~~ **parth cyhoeddus** gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes **sydd angen caniatâd cynllunio penodol fod** yn ddwyieithog.<br><br>Nid yw'r cynghorau wedi derbyn y newidiadau eraill a geisiwyd ac felly ni chytunwyd i newidiadau a geiswyd i faen prawf 4. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **b) Datblygiad preswyl o 20 uned neu fwy ar safleoedd mewn canolfannau isranbarthol neu ganolfannau gwasanaeth trefol a 10 uned neu fwy mewn canolfannau gwasanaeth lleol, pentrefi gwasanaeth, pentrefi lleol/ gwledig/ arfordirol a chlystyrau; neu**<br>**c) Datblygiad twristaidd, masnachol neu ddiwydiannol gydag arwynebedd o 2000 m.sg. neu fwy.**<br>3. Defnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny iddynt;<br>~~4. Gwrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned~~<br>5. ~~Ei gwneud yn ofynnol~~ Annog, lle bo'n briodol, ~~yr holl~~ arwyddion gweithredol gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes i fod yn ddwyieithog;<br>6. Gosod disgwyliad y bydd enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau ~~tai a~~ strydoedd**.**<br><br>**Mewn amgylchiadau priodol, sicrheir lliniaru yn erbyn unrhyw effeithiau andwyol drwy amod cynllunio a/neu drwy ofyn am gyfraniad ariannol trwy gytundeb adran 106".**<br><br>Cytuna'r Cynghorau nad yw geiriad maen prawf 1(c) yn ddigon clir ond nid ydynt yn cytuno â'r diwygiadau eraill a awgrymir.<br><br>Gwnaed newidiadau eraill i eiriad y Polisi mewn ymateb i sylwadau eraill. | |
| 10 | NF17 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Cymunedau diogel, iach, nodedig a bywiog, Paragraffau 7.1.7 –7.1.9<br><br>Gofynnodd Horizon am ddiwygio paragraffau 7.1.7 i 7.1.9 fel a ganlyn:<br><br>7.1.7 Fe ddaeth ardoll cynllunio newydd i rym ar 6 Ebrill 2010 drwy Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr godi arian oddi wrth ddatblygwyr i ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd yn eu hardal hwy. | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF17. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Bydd modd defnyddio'r arian i dalu am amrediad eang o seilwaith y mae angen amdano o ganlyniad i ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau cludiant, amddiffynfeydd rhag llifogydd, ysgolion, ysbytai a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, parciau, llecynnau gwyrdd a chanolfannau hamdden.<br><br>~~7.1.8 Ar ôl 6ed o Ebrill 2015 dim ond 5 cyfraniad o gytundebau adran 106, ers 6ed Ebrill 2010, y gellir ei gynnwys mewn cronfa ar gyfer adnoddau a rannir, er enghraifft cyfraniadau ar gyfer gofodau chwarae yn sgil cyfres o ddatblygiadau mewn anheddle.~~<br><br>7.1.~~9~~**8** Cyflwynwyd y gyfundrefn ~~Mecanwaith gwirfoddol ydy'r~~ Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) gyda'r nod i greu cyfundrefn doll fwy safonedig o ran seilwaith adnabyddedig, er mwyn i ddatblygwyr a chynghorau weithio yn unol ag ef, ac felly i leihau'r amser a gymerir i negodi cytundebau rhwymedigaethau cynllunio unigol ar gyfer datblygiadau. Dyluniwyd y mecanwaith, felly, i ddisodli'r system bresennol o gytundebau 106. Fodd bynnag nid yw'r gyfundrefn CIL yn orfodol - mecanwaith gwirfoddol ydyw ac mae angen tystiolaeth i ~~Fodd bynnag~~ ddangos bod y farchnad yn ddigon hyfyw i ganiatáu hynny.<br><br>7.1.9 Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau CIL yn cyfyngu'r defnydd o gytundebau adran 106 o'r 6ed o Ebrill 2015. O'r dyddiad hwn gall Gynghorau ond gronni cyfraniadau o i fyny i bum gytundeb adran 106 (a gytunwyd ers 6ed o Ebrill 2010) i ariannu neu i ddarparu Seilwaith. Fe ellir cynnwys cyfraniadau anghyfyngedig cynt o fewn cronfa ar gyfer rhannu adnoddau, er enghraifft, gellir cronni cyfraniadau ar gyfer mannau chwarae o nifer o ddatblygiadau o fewn aneddleoedd.<br><br>7.1.10 Bwriad y Cynllun yw sicrhau cyfraniadau drwy Gytundebau 106 lle maent yn cwrdd â'r profion statudol o: fod yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio; fod yn uniongyrchol berthnasol i'r datblygiad; yn weddol a rhesymol berthnasol o ran graddfa a math i'r datblygiad; a'u bod o fewn y cyfyngiadau cronni mae'r Rheoliadau'n parhau i ganiatáu i hynny ddigwydd (gweler paragraff uchod). Mae'r Cynghorau'n ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno CIL, gan roi sylw i | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | effaith hynny ar hyfywdra datblygiad. Bydd y CIL yn destun proses a dogfennau ar wahân i'r Cynllun. Bydd gwybodaeth yn cael ei gasglu am gostau darparu Seilwaith strategol, y gwahanol ffynonellau i dalu am yr Seilwaith a hyfywdra safleoedd. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd gyda datblygwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb a gwybodaeth am yr ardal. | |
| 11 | NF18 | Polisi Strategol PS2: 'Seilwaith a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr, Polisi ISA 1: 'Darpariaeth Seilwaith'<br><br>Gofynnodd Horizon am ddiwygio Polisi PS2 fel a ganlyn:<br><br>**POLISI STRATEGOL PS2: SEILWAITH A CHYFRANIADAU GAN DDATBLYGWYR**<br>Bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau bod darpariaeth ddigonol o seilwaith angenrheidiol (naill ai ar y safle neu i wasanaethu'r safle) yn cael ei ddarparu yn amserol ar gyfer gwneud y cynnig yn dderbyniol trwy amod neu rwymedigaeth cynllunio. Yn ddarostyngedig i gwrdd â'r profion statudol, fe all fod yn ofynnol gofyn am daliadau cynnal yn unol â chytundebau adran 106 ~~Fe ellir fod angen rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer taliadau cynnal~~ er mwyn cwrdd â chostau dechreuol i redeg gwasanaethau a chyfleusterau ac i ddigolledu cymunedau am golled neu ddifrod achosir gan ddatblygiad. | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF18. |
| 12 | NF20 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Cymunedau diogel, iach, nodedig a bywiog, Paragraffau 7.1.10 –7.1.14<br><br>Gofynnodd Horizon am ddiwygio paragraffau 7.1.10 i 7.1.14 fel a ganlyn:<br><br>7.1.10 Yn aml, bydd datblygiadau newydd angen seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau newydd, neu byddant yn ddibynnol ar rai presennol, i wneud cynigion yn dderbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir. Mae modd ceisio cael buddion statudol cymunedol, sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF20. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ac yn angenrheidiol ar gyfer derbyn caniatâd cynllunio, gan y datblygwyr, cyn belled â'u bod yn cwrdd â'r profion sydd wedi eu hamlinellu ym mharagraff 7.1.6 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol fel y nodir ym mharagraff 7.1.6 â bod graddfa a math y buddion hynny'n rhesymol gysylltiedig â'r cynnig. Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth seilwaith ar gyfer safle datblygu yn cael ei lleoli a'i dylunio mewn modd sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Dylid gwarchod mwynderau'r trigolion lleol hefyd. Bydd Buddion Statudol cyfraniadau at seilwaith cymunedol yn cael eu sicrhau un ai trwy rwymedigaethau cynllunio Adran 106 dan fel y nodir yn Adran 106, Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel amodau caniatâd cynllunio neu, mewn amgylchiadau pan fo cyfundrefn codi tâl CIL yn cael ei gyflwyno gan y Cynghorau, trwy dderbynebion ardoll CIL dan Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010.<br><br>7.1.11 Mae Buddion Statudol rhwymedigaeth gynllunio yn gytundeb cyfreithiol rhwng yr awdurdod lleol a datblygwr sy'n rhwymo'r naill ochr a'r llall. Mae rhwymedigaethau cynllunio yn fodd o sicrhau cyfraniadau ariannol a heb fod yn ariannol er mwyn gwella ansawdd datblygiad, darparu buddion a seilwaith cymunedol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a all godi o ganlyniad i'r datblygiad. Bydd math a gwerth y Buddion Statudol rhwymedigaethau cynllunio a geisir mewn perthynas â datblygiad chaniatâd cynllunio yn cael eu hystyried yn ôl pob achos unigol. Fe fydd y Cynghorau yn edrych ar ddefnyddio Buddion Statudol er mwyn sicrhau cyfraniadau priodol gan ddatblygwyr ble nad oes darpariaeth seilwaith ar gael, neu os yw'n annigonol, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r datblygwr wneud cyfraniad priodol.<br><br>7.1.12. Bydd y profion a amlinellir yng Nghylchlythyr 13/97 ac yn Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 yn cael eu defnyddio i bennu pryd fyddai'n briodol ceisio Buddion Statudol rhwymedigaethau cynllunio. Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach ar y mater. | |
| 13 | NF23 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Cymunedau diogel, iach, nodedig a | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF23. |

bywiog, Polisi PS4: 'Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd'

Gofynnodd Horizon am ddiwygio Polisi PS4 fel a ganlyn:

POLISI STRATEGOL PS4: TRAFNIDIAETH GYNALIADWY, DATBLYGIAD A HYGYRCHEDD

Caiff datblygiad ei leoli i leihau'r angen i deithio. Bydd y Cynghorau'n cefnogi gwelliannau trafnidiaeth a fydd yn uchafu hygyrchedd ar gyfer pob dull o deithio, ond yn arbennig ar droed, beic a chludiant cyhoeddus. Caiff hyn ei wireddu trwy gael mynediad hwylus ar lwybrau, Seilwaith beicio a chludiant cyhoeddus lle mae'n briodol, ac felly hyrwyddo'r defnydd o'r dulliau yma o deithio ar gyfer teithio lleol a lleihau'r angen i deithio yn y car.

Bydd y Cynghorau'n ceisio gwella hygyrchedd a cheisio newid ymddygiad teithio trwy weithio gyda phartneriaid i:

1. Gynnal gwasanaeth cludiant cyhoeddus priodol, gan gydnabod dulliau gwahanol o gynnal cyfleon teithio;

2. Gynnal a gwella gorsafoedd, Seilwaith a gwasanaethau ar y prif Linellau Rheilffordd gan gynnwys mynediad i bobl anabl a gwelliannau eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd;

3. Gwella'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio er mwyn gwella diogelwch, hygyrchedd a mynediad (gan gynnwys defnyddwyr anabl) i'r dulliau yma o deithio;

4. Cefnogi cynlluniau a fydd yn gwella trafnidiaeth trwy gyfleusterau parcio/ rhannu a theithio i ardaloedd cyflogaeth a datblygiad newydd a chyfleusterau symud llwythau ~~a gwelliannau eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd~~;

5. Ddynodi neu warchod tir lle mae'n briodol er mwyn hyrwyddo cynlluniau trafnidiaeth strategol fel y nodir ym Mholisi TRA1.

Bydd y Cynghorau'n disgwyl y bydd elfennau seilwaith ~~allweddol~~ priodol yn

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cael eu darparu fel rhan o gynlluniau datblygiadau seilwaith mawr naill ai mewn nwyddau neu trwy oblygiadau cytundeb 106 a lle mae'r fath ddarpariaeth yn cwrdd â'r profion a sefydlwyd yn rheoliad 122 o reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010.<br><br>~~Defnyddir ymrwymiadau cynllunio neu fecanweithiau priodol eraill gyda phob datblygiad ar safleoedd datblygiadau mawr i leihau eu heffaith ar system trafnidiaeth ardal y Cynllun yn unol â Pholisi Strategol PS2 yn ogystal â hyrwyddo system integredig o drafnidiaeth.~~ | |
| 14 | NF24, NF25 ac NF134 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Cymunedau diogel, iach, nodedig a bywiog, Polisi TRA1: 'Datblygiadau Rhwydwaith Trafnidiaeth'<br><br>Gofynnodd Horizon am ddiwygio Polisi TRA1 fel a ganlyn:<br><br>O ran maen prawf 3 "Asesiad Trafnidiaeth", cynnwys cyfeiriad at y tabl defnydd trothwy (tabl 12) i ddiffinio datblygiadau ar raddfa fawr.<br><br>Ceisiodd Horizon adfer maen prawf diwygiedig maen prawf 4(iii) a chadw "Ardaloedd Gwella'r A5025" o'r Map cynigion fel y gwelir yn Map cynigion 1 – Ynys Môn. | Cytunwyd.<br><br>Cytunodd Horizon i beidio â mynd ar ôl diwygiadau i Bolisi TRA1 maen prawf 3<br><br>Cytunodd y partïon i ddileu'r cyfeiriad at yr Hwb Corfforaethol.<br><br>Cytunir bod NMC yn cael ei gynnig i fewnosod y canlynol fel maen prawf 4(iii):<br><br>"4.(iii) A5025 Fali i'r Wylfa a gwelliannau seilwaith trafnidiaeth eraill sy'n gysylltiedig â'r datblygiad niwclear newydd yn yr Wylfa Newydd gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle gwelir yr angen ar gyfer gwella'r rhan honno yn dilyn datblygu Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig i Brosiect Wylfa Newydd.<br><br>Cytunir y bydd y map cynigion yn dangos yr Ardaloedd Gwelliannau i'r A5025. |
| 15 | NF29 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Polisi Byw Cynaliadwy,<br><br>PCYFF1 MEINI PRAWF DATBLYGU<br><br>Er gwaethaf rhai diwygiadau i eiriad y Polisi hwn(Cyf Newid â Ffocws: NF 29), roedd Horizon yn dal i ystyried bod maen prawf 3 yn fwy cyfyngol yn | Cytunwyd na fyddai'r newid hwn yn cael ei symud ymlaen yn dilyn y diwygiadau a wnaed gan NF29 fel y cadarnhawyd gan y Cynghorau mewn trafodaethau SOCG. |

nhermau gosodiad datblygiad na'r Crynodeb Gweithredol (Coeden Aneddleoedd – para. 1.26 ff) a pharagraff 6.22; er enghraifft, mae'r cyntaf yn dynodi nifer o amgylchiadau lle bydd datblygiad mewn cefn gwlad agored yn cael ei ganiatáu. Ystyria Horizon hefyd bod potensial ar gyfer dryswch gan fod Polisi PS15 ymwneud yn unig â thai tra bod geiriad PCYFF1 yn awgrymu ei fod yn ymwneud â phob math o ddatblygiad. Cred Horizon bod y gwaith o ddrafftio maen prawf 4 yn anghyson â drafftio'r meini prawf eraill.

Mae'n dal i ystyried bod cyfeiriadau at ofynion meini prawf 9 a 10 (fel y labelwyd yn y Cynllun Adnau: Datganiad Ysgrifenedig [2015]) yn cael eu trin yn rhywle arall yn y Cynllun ac y gellid eu dileu. Nid yw'n dal yn glir sut y bydd "derbynioldeb" ac "annerbynioldeb' yn cael eu hasesu yn y Cynllun.

Awgrymodd Horizon bod Polisi PCYFF1 yn cael ei ddiwygio a ganlyn:

POLISI PCYFF1: MEINI PRAWF DATBLYGU
Dylai cynnig **ddangos ei fod yn cydymffurfio â**:
1. ~~Rhaid i gynnig gydymffurfio~~ yr holl bolisïau perthnasol yn y Cynllun;
2. ~~Rhaid i gynnig gydymffurfio~~ â pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.

Dylai cynigion:
3. *roi blaenoriaeth i safleoedd y tu mewn i ffiniau datblygu neu ffurf adeiledig y clystyrau cydnabyddedig restrir yn y goeden aneddleoedd a welir ym Mholisi Strategol PS15 oni bai fod lleoliad gwledig yn hanfodol neu os oes angen am leoliad penodol, yn ddarostyngedig i ystyriaethau cynllunio perthnasol;*
4. *wneud y defnydd gorau o dir, ~~gan gynnwys dwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar o ran datblygiadau preswyl (oni bai bod yna amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is~~*
5. *ymgorffori gofod mwynderol ar gyfer ei feddianwyr presennol ac yn y dyfodol;*
6. *roi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff;*
7. *gynnwys, lle mae hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer trin a chael gwared o rywogaethau ymwthiol yn effeithiol;*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *Yn ychwanegol, gwrthodir caniatâd cynllunio lle byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol sylweddol annerbyniol ar:*<br>**8.** *golygfeydd cyhoeddus amlwg i mewn, allan, neu ar draws unrhyw anheddle neu ardal cefn gwlad agored;*<br>**9.** *fynediad cerbydol i'r rhwydwaith priffyrdd ac ohono ac ar Seilwaith cludiant cyhoeddus, beicio a cherddwyr (yn unol a Pholisi TRA4)*<br>**10.** *y rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i faint neu'r math o draffig a grëir gan y cynnig (yn unol â Pholisi TRA4);*<br>**11.** *iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch;*<br>**12.** *ansawdd dŵr daear neu ddŵr wyneb;*<br>**13.** *dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas".*<br>*~~14. Tir a ddyrannwyd i ddatblygiadau/defnydd arall~~,"*<br><br>Nid yw'r Cynghorau yn derbyn y diwygiadau a gynigiwyd heblaw ar gyfer maen prawf 3 sy' cael ei ddiwygio ymhellach fel a ganlyn:<br><br>3. ~~cymeradwyir~~ rhoi blaenoriaeth i safleoedd y tu mewn i ffiniau datblygu neu ffurf adeiledig y clystyrau cydnabyddedig a restrir yn y fframwaith aneddleoedd a welir ym Mholisi Strategol PS15 <u>oni bai fod lleoliad gwledig yn hanfodol</u> <u>*neu ei fod yn cynnwys trosi derbyniol o gynllun o raddfa a natur dderbyniol*</u> <u>neu os oes angen am leoliad penodol</u>, yn ddarostyngedig i ystyriaethau cynllunio manwl perthnasol; | |
| 16 | NF32 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Byw cynaliadwy Polisi PCYFF4 "Rheoli carbon"<br><br>Gofynnodd Horizon am ragor o eglurder am yr hyn oedd ei angen i fodloni'r polisi hwn. | Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen. |
| 17 | NF40 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Economi ac Adfywio, Polisi PS8: 'Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd a Datblygiadau | Datryswyd – geiriad wedi'i ddiwygio gan NF23. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cysylltiedig’<br><br>Gofynnodd Horizon am eglurder nad yw Polisi PS8 yn berthnasol i’r Wylfa. Cyf Newid â Ffocws: NF40 yn egluro nad yw Polisi PS8 yn berthnasol i Brosiect Wylfa Newydd ac mae hyn yn datrys gwrthwynebiad Horizon. | |
| 18 | NF40 ac<br><br>NF42 | Pennod 7, 7.3 ECONOMI AC ADFYWIO<br><br>Polisi Paragraffau 7.3.1-7.3.19<br><br>Ystyria Horizon bod y bennod yn amrywio rhwng cael eu hysgrifennu ar gyfer gwneud cais cyffredinol ar gyfer "brosiectau seilwaith mawr"; a chael ei hysgrifennu yn benodol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. Ystyrid bod hyn yn creu dryswch ynghylch y polisïau perthnasol ar gyfer y Prosiect ac yn cyfyngu ar hyblygrwydd y Cynllun i addasu i newidiadau yn y nifer a'r math o brosiectau seilwaith mawr yn yr ardal.<br><br>Gofynnodd Horizon am y diwygiadau canlynol:<br><br>“7.3.1 Cyd-destun<br>• Mae gan y Deyrnas Unedig darged sy’n ymrwymiad cyfreithiol i gael toriad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050, gyda tharged interim o leiaf o 34% yn is na’r lefelau blwyddyn sail erbyn 2020 (Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008)<br>• Mae’n nod allweddol o bolisi cenedlaethol i wella diogelwch ynni’r wlad<br>• Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn sefydlu’r angen am Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd penodol (NSIPs – fel y’u diffinnir gan Ddeddf Cynllunio 2008), yn cynnwys yn benodol ar gyfer cynhyrchu ynni.<br>• Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dewis safle ger y Wylfa fel safle sydd o bosibl yn addas ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae hwn yn ffurfio NSIPs, fel y mae’r NSIPs Grid Cenedlaethol ar wahân i ddarparu llinellau trosglwyddo o’r orsaf bŵer niwclear newydd.<br>• Fe allai’r NSIPs hyn fod ag oblygiadau seilwaith mawr i’r ~~ardal y~~ Cynllun, ~~ar ffurf llinellau trawsgludo trydan newydd a datblygiad cysylltiedig~~ | Datryswyd – cytunodd y partïon i gynnig newid i ddiwygio geiriad y paragraffau (sydd eisoes yn cynnwys newidiadau a wnaed gan y Newidiadau â Ffocws) fel a ganlyn:<br><br>**7.3 ECONOMI AC ADFYWIO**<br><br>**PROSIECTAU SEILWAITH O ARWYDDOCÂD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG**<br><br>7.3.1 **Cyd-destun**<br><br>• Mae gan y Deyrnas Unedig darged sy’n ymrwymiad cyfreithiol i gael toriad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050, gyda tharged interim o leiaf o 34% yn is na’r lefelau blwyddyn sail erbyn 2020 (Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008)<br>• Mae’n nod allweddol o bolisi cenedlaethol i wella diogelwch ynni’r wlad<br>• Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn sefydlu’r angen am Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd penodol (NSIPs – fel y’u diffinnir gan Ddeddf Cynllunio 2008), yn cynnwys yn benodol ar gyfer cynhyrchu ynni.<br>• Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dewis safle ger y Wylfa fel safle sydd o bosibl yn addas ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae hwn yn ffurfio NSIPs, fel y mae’r NSIPs Grid Cenedlaethol ar wahân i ddarparu llinellau trosglwyddo o’r orsaf niwclear newydd.<br>• Fe allai’r NSIPs hyn fod ag oblygiadau seilwaith mawr i’r ardal y Cynllun, ar ffurf llinellau trawsgludo trydan newydd a datblygiadau cysylltiedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cyflwyniad<br>• 7.3.2 Mae NSIPs yn brosiectau seilwaith mawr o bwysigrwydd cenedlaethol fel cefnffyrdd newydd, meysydd awyr, porthladdoedd, gorsafoedd pŵer (yn cynnwys niwclear), llinellau trawsgludo trydan, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd cemegau **fel y diffinnir yn Deddf Cynllunio 2008**.<br><br>7.3.3 Amlinellir y broses gymeradwyo am orchymyn caniatâd datblygu (sef y ffurf o ganiatâd ar gyfer NSIPs) ym mharagraffau 3.7 – 3.10. Fel y nodwyd yn y paragraffau hynny, er mai'r sawl sy'n penderfynu yw'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol (yn dilyn archwiliad ac argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio), awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill (**fel yr MMO**) fydd yn penderfynu ar geisiadau am ddatblygiad cysylltiedig neu berthnasol o fewn y cais am y prif Orchmynion Caniatâd, a bydd polisi cenedlaethol yn ystyriaeth berthnasol fel sy'n briodol. Lle mae **datblygiad cysylltiedig** neu ategol yn ymwneud ag adeiladu neu weithredu NSIP, bydd y cynigion hyn yn dod **o ran Prosiect Wylfa Newydd (e.e. Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro, canolfannau logisteg, a chyfleusterau parcio a theithio) yn cael eu hystyried o dan Bolisïau Strategol** PS8 a PS9, **WNP1, WNP2, WNP3 a WNP4** yn ogystal â pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun. Bydd **datblygiadau cysylltiedig mewn perthynas â NSIPs heblaw Prosiect Wylfa Newydd neu brosiectau seilwaith mawr arall sydd i'w penderfynu gan y Cynghorau yn cael eu hystyried dan Polisi Strategol PS8.**<br><br>7.3.4 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n edrych ar geisiadau am ddatblygiad Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd newydd, gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen cenedlaethol, buddion ac effaith, fel sydd i'w gweld mewn polisi perthnasol. Ar gyfer seilwaith ynni, bydd hyn yn cynnwys y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Ynni (EN-1- 6). Mae'r DPCau ynni yn amlinellu polisi cenedlaethol yr asesir ac yr archwilir ceisiadau am brosiectau ynni mawr yn eu herbyn gan yr | **Cyflwyniad**<br><br>• 7.3.2 Mae NSIPs yn brosiectau seilwaith mawr o bwysigrwydd cenedlaethol fel cefnffyrdd newydd, meysydd awyr, porthladdoedd, gorsafoedd pŵer (yn cynnwys niwclear), llinellau trawsgludo trydan, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd cemegau.<br><br>(7.3.3 wedi'i ddileu)<br><br>7.3.4 Amlinellir y broses gymeradwyo am orchymyn caniatâd datblygu (sef y ffurf o ganiatâd ar gyfer NSIPs) ym mharagraffau 3.7 – 3.10. Fel y nodwyd yn y paragraffau hynny, er mai'r sawl sy'n penderfynu yw'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol (yn dilyn archwiliad ac argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio). Awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill fydd yn penderfynu ar geisiadau am ddatblygiad cysylltiedig neu berthnasol o fewn y cais am y prif Orchmynion Caniatâd, a bydd polisi cenedlaethol yn ystyriaeth berthnasol fel sy'n briodol. Lle mae datblygiad cysylltiedig neu ategol yn ymwneud ag adeiladu neu weithredu Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd, ystyrir y cynigion hyn dan ~~Bolisïau Strategol~~ PS8 a PS9~~, yn ogystal â'r~~ polisïau perthnasol yn y cynllun, **<u>ynghyd â Pholisïau Strategol PS8 a PS9 lle bo'n briodol</u>**.<br><br>7.3.5 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n edrych ar geisiadau am ddatblygiad Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd newydd, gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen cenedlaethol, buddion ac effaith, fel sydd i'w gweld mewn polisi perthnasol. Ar gyfer seilwaith ynni, bydd hyn yn cynnwys y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Ynni (EN-1- 6). Mae'r DPCau ynni yn amlinellu polisi cenedlaethol yr asesir ac yr archwilir ceisiadau am brosiectau ynni mawr yn eu herbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, gall yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd ystyried materion eraill sy'n bwysig a pherthnasol i'w benderfyniadau, yn cynnwys y cynllun datblygu defnydd tir presennol, ~~y Cynllun yma pan fydd yn ddigon~~ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Arolygiaeth Gynllunio. Yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, gall yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd ystyried materion eraill sy'n bwysig a pherthnasol i'w benderfyniadau, yn cynnwys **y Cynllun hwn** fel y cynllun datblygu defnydd tir presennol, y Cynllun yma pan fydd yn ddigon pwysig fel ystyriaeth gynllunio berthnasol neu fod y Cynllun yn cael ei fabwysiadu, Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynlluniau Rheoli Cyrchfan, Cynllun Sengl Integredig, Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd a dogfennau perthnasol eraill. Ar gyfer cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, rôl ddewisol ar y cyfan fydd gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf Cynllunio 2008; byddant yn cael eu gwahodd i asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori a'r effeithiau lleol ac adrodd ar y rhain wrth yr Arolygiaeth Gynllunio mewn Adroddiad Effaith Lleol. **Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn ymgynghorai statudol lle** Yn yr un modd y caiff ceisiadau eu gwneud i gyrff statudol eraill. Yng Nghymru, yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau penderfynu ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda'r cais Gorchymyn Rheoli Datblygiad, er enghraifft, llefydd byw i weithwyr adeiladu, canolfan logisteg, cyfleuster parcio a theithio.<br><br>7.3.5 Bydd graddfa ac effaith NSIPs yn cael eu lliniaru drwy becyn priodol o amodau caniatâd cynllunio, **cytundebau adran 106,** cytundebau priffyrdd a derbynion CIL (os gweithredir atodlen codi tâl CIL). **Trafodir y pecyn hwn fel rhan o'r broses gynllunio.**<br><br>7.3.6 Yn ogystal bydd y Cynghorau **annog datblygwyr i ystyried cynnig buddion cymunedol i gymunedau cartref i gydnabod** ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr ddarparu pecynnau o fuddion cymunedol i wneud iawn i'r gymuned am y baich o gynnig cartref i'r prosiect. **Hoffai'r Cynghorau** weld unrhyw gronfa o'r fath yn cael ei defnyddio i wrthbwyso baich ar yr ardal leol, a byddai'n nodi defnyddiau etifeddiaeth posibl, gan gynnwys trafnidiaeth, seilwaith cymdeithasol, economaidd a chymunedol a fyddai o fudd i'r gymuned yn y tymor hir.<br><br>7.3.7 **Mae'r Cynghorau yn nodi y gall** buddion cymunedol **gwirfoddol** o'r fath **gael eu darparu** drwy ddarpariaethau Deddfau Llywodraeth Leol, y Deddfau Cynllunio, neu ddeddfwriaeth arall, neu fel arall drwy gytundeb gwirfoddol gyda'r darparwr prosiect, neu'n unol â phrotocol y diwydiant. | pwysig fel ystyriaeth gynllunio berthnasol neu fod y Cynllun yn cael ei fabwysiadu, Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynlluniau Rheoli Cyrchfan, Cynllun Sengl Integredig, Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd a dogfennau perthnasol eraill. Ar gyfer cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, rôl ddewisol ar y cyfan fydd gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf Cynllunio 2008; byddant yn cael eu gwahodd i asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori a'r effeithiau lleol ac adrodd ar y rhain wrth yr Arolygiaeth Gynllunio mewn Adroddiad Effaith Lleol. Yn yr un modd gellir gwneud ceisiadau i gyrff statudol eraill. Yng Nghymru, yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau penderfynu ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda'r cais Gorchymyn Rheoli Datblygiad, er enghraifft, llefydd byw i weithwyr adeiladu.<br><br>**7.3.6** Bydd graddfa ac effaith NSIPs **a Datblygiadau Cysylltiedig** yn cael eu lliniaru drwy becyn priodol o amodau caniatâd cynllunio, cytundebau cynllunio a phriffyrdd a derbynion CIL (os gweithredir atodlen codi tâl CIL).<br><br>**7.3.7** Yn ogystal **bydd** y Cynghorau yn ei gwneud yn ofynnol **annog datblygwyr i ystyried** pecynnau o fuddion cymunedol i wneud iawn i'r gymuned am y baich o gynnig cartref i'r prosiect. Bydd unrhyw gronfa o'r fath yn cael ei defnyddio i wrthbwyso baich ar yr ardal leol, a byddai'n nodi defnyddiau etifeddiaeth posibl, gan gynnwys trafnidiaeth, seilwaith cymdeithasol, economaidd a chymunedol a fyddai o fudd i'r gymuned yn y tymor hir.<br><br>**7.3.8** Gall buddion cymunedol gael eu darparu drwy ddarpariaethau Deddfau Llywodraeth Leol, y Deddfau Cynllunio, neu ddeddfwriaeth arall, neu fel arall drwy gytundeb gwirfoddol gyda'r darparwr prosiect, neu'n unol â phrotocol y diwydiant.<br><br>**7.3.9** Mae cyfraniadau buddion cymunedol **gwirfoddol** yn daliadau ariannol **neu ddarpariaethau eraill** gan ddatblygwr er budd cymunedau sy'n cynnal datblygiad **nad ydynt wedi'u cynllunio i ymdrin ag effeithiau uniongyrchol y datblygiad ac ni ellir eu barnu'n gywir i fod yn angenrheidiol i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol o** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 7.3.8 **Mae'r Cyngor yn cydnabod bod** cyfraniadau budd cymunedol ~~yn daliadau ariannol gan ddatblygwr er budd cymunedau sy'n rhoi cartref i ddatblygiad~~. ~~Mae cyfraniadau buddion cymunedol~~ ar wahân ac yn wahanol i'r broses gynllunio. Nid ydynt yn ystyriaeth berthnasol y gellir ei chymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu ymateb yn gadarnhaol neu fel arall, i gais ymgynghori. Nid yw unrhyw daliad a wneir wedi'i gynllunio i ymdrin ag effeithiau uniongyrchol y datblygiad ac ni ellir eu barnu'n gywir i fod yn angenrheidiol i wneud datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio.<br><br>**7.3.9** Ar hyn o bryd, mae dau NSIP arfaethedig yn y cyfnod cyn ymgeisio tu mewn i ardal y Cynllun:<br><br>i. Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ger yr Wylfa, sef Wylfa Newydd, a gynigwyd gan Horizon Nuclear Power, fel sydd i'w weld yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6);<br>ii. Gwelliannau/ gwaith newydd gyda Llinellau Trawsgludo'r Grid Cenedlaethol yn cysylltu Wylfa Newydd gydag Is-orsaf Pentir a thu hwnt, wedi'u cynnig gan y Grid Cenedlaethol;<br><br>**7.3.10** ~~7.3.9~~ Mae'n bwysig bod y Cynllun yn amlinellu fframwaith polisi er mwyn cynorthwyo'r Cynghorau i roi sylw i ac ymateb i gynigion seilwaith mawr NSIPs sy'n dod ymlaen, yn cynnwys er enghraifft:<br>i. Darparu cyngor a gwybodaeth i hysbysu hyrwyddwyr prosiectau yn ystod datblygiad eu cynigion ar gyfer ymgynghori a datblygu prosiectau<br>ii. ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod datblygiad prosiectau ac ar geisiadau i gyrff eraill sy'n penderfynu, **fel yr Arolygaeth Gynllunio a'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO);**<br>iii. awgrymu gofynion priodol i'w cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac ymrwymiadau (fel Adran 106 ac Ardoll Seilwaith Cymunedol, os yn berthnasol<br>iv. penderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad cysylltiedig, ategol neu berthnasol tu allan i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu;<br>~~v. gwneud sylwadau asesu ar ba mor ddigonol yw'r ymgynghori;~~<br>v. asesu effeithiau'r prosiect, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn yr | **<u>safbwynt cynllunio.</u>** Mae cyfraniadau buddion cymunedol **<u>gwirfoddol</u>** ar wahân ac yn wahanol i'r broses gynllunio. Nid ydynt yn ystyriaeth berthnasol y gellir ei chymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu ymateb yn gadarnhaol neu fel arall, i gais ymgynghori. ~~Nid yw unrhyw daliad a wneir wedi'i gynllunio i ymdrin ag effeithiau uniongyrchol y datblygiad ac ni ellir eu barnu'n gywir i fod yn angenrheidiol i wneud datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio~~.<br><br>**7.3.10** Ar hyn o bryd, mae dau NSIP arfaethedig yn y cyfnod cyn ymgeisio tu mewn i ardal y Cynllun:<br><br>i. Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ger yr Wylfa, sef Wylfa Newydd, a gynigwyd gan Horizon Nuclear Power, fel sydd i'w weld yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6);<br>ii. Gwelliannau/ gwaith newydd gyda Llinellau Trawsgludo'r Grid Cenedlaethol yn cysylltu Wylfa Newydd gydag Is-orsaf Pentir a thu hwnt, wedi'u cynnig gan y Grid Cenedlaethol;<br><br>**7.3.11** Mae'n bwysig bod y Cynllun yn amlinellu fframwaith polisi er mwyn cynorthwyo'r Cynghorau i roi sylw i ac ymateb i gynigion seilwaith mawr NSIPs sy'n dod ymlaen, yn cynnwys er enghraifft:<br><br>i. Darparu cyngor a gwybodaeth i hysbysu hyrwyddwyr prosiectau yn ystod datblygiad eu cynigion ar gyfer ymgynghori a datblygu prosiectau;<br><br>ii. ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod datblygiad prosiectau ac ar geisiadau i gyrff eraill sy'n penderfynu<br><br>iii. awgrymu gofynion priodol i'w cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac ymrwymiadau (fel Adran 106 ac Ardoll Seilwaith Cymunedol, os yn berthnasol<br><br>iv. penderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad cysylltiedig, ategol neu berthnasol tu allan i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Adroddiad Effaith Lleol y bydd yr Arolygiaeth Cynllunio'n gwahodd y Cyngor/Cynghorau i'w gyflwyno ar ôl i unrhyw gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu gael ei gyflwyno; ,<br>vi. gwneud sylwadau fel rhan o drefn ffurfiol yr Arolygiaeth Gynllunio i archwilio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu<br>vii. wrth benderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth yn dilyn y caniatâd (yn cynnwys 'amodau' caniatâd cynllunio), ac wrth gyflawni swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi.<br><br>**7.3.11** ~~7.3.10~~ Mae Polisi Strategol PS8 ~~yn bolisi trosfwaol~~ yn ymwneud ag unrhyw Ddatblygiadau Cysylltiedig mewn perthynas ag NSIPs heblaw am Brosiect Wylfa Newydd neu brosiectau seilwaith mawr eraill i'w penderfynu gan y Cynghorau. ~~geisiadau cynllunio am NSIPs (heblaw Wylfa Newydd) neu gynigion datblygu sy'n gysylltiedig neu'n ategol i'r fath gais NSIP, boed hwy'n cael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd neu unrhyw asiantaeth arall.~~ Nid yw Polisi Strategol PS8 yn gysylltiedig ag unrhyw gais NSIP am ddatblygiad yn Wylfa Newydd, neu gynigion datblygu sy'n gysylltiedig â neu'n ategol i'r cais hwnnw. **Mae Polisi Strategol PS9 yn berthnasol i'r Prosiect Wylfa Newydd arfaethedig gan gynnwys datblygiadau sy'n gysylltiedig ag ef.**<br><br>**7.3.12** ~~7.3.11~~ Mae'r Cynghorau a'u partneriaid wedi cydnabod potensial arwyddocaol Wylfa Newydd yn arbennig i'r economi leol yn Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynllun Strategol/ Corfforaethol y Cynghorau a'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Mae Pennod 3 o'r Cynllun yn rhoi dolen i'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn yr Wylfa, sy'n nodi gweledigaeth ~~cyngor ategol~~ Cyngor Sir Ynys Môn ~~ar faterion uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â'r prosiect yma ac ei ymateb i bolisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol yng nghyd-destun y Weledigaeth~~ mewn perthynas â'r prosiect hwn. Mae'r rhan hon o'r Cynllun yn delio gyda datblygiadau **cysylltiedig** ~~Prosiect Wylfa Newydd arfaethedig~~ â ~~gan gynnwys~~ Phrosiect Wylfa Newydd (PS9) a Datblygiadau Cysylltiedig i NSIPs eraill a Phrosiectau Mawr (PS8) ~~sy'n gysylltiedig ag ef~~ lle mai naill ai Cyngor Sir Ynys Môn neu Gyngor Gwynedd yw'r awdurdod penderfynu ar geisiadau ~~cynllunio~~ **ar gyfer** | v. gwneud sylwadau asesu ar ba mor ddigonol yw'r ymgynghori;<br><br>vi. asesu effeithiau'r prosiect, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn yr Adroddiad Effaith Lleol y bydd yr Arolygiaeth Cynllunio'n gwahodd y Cyngor/Cynghorau i'w gyflwyno ar ôl i unrhyw gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu gael ei gyflwyno;<br><br>vii. gwneud sylwadau fel rhan o drefn ffurfiol yr Arolygiaeth Gynllunio i archwilio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu,<br><br>viii. wrth benderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth yn dilyn y caniatâd (yn cynnwys 'amodau' caniatâd cynllunio), ac wrth gyflawni swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi.<br><br>**7.3.12** Mae Polisi Strategol PS8 yn bolisi trosfwaol yn ymwneud ag unrhyw gais am NSIP (heblaw am Wylfa Newydd) neu gynigion datblygu sy'n gysylltiedig neu'n ategol i'r fath gais NSIP, boed hwy'n cael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd neu unrhyw asiantaeth arall. Mae Polisi Strategol PS8 yn gysylltiedig ag unrhyw gais NSIP am ddatblygiad yn Wylfa Newydd, neu gynigion datblygu sy'n gysylltiedig â neu'n ategol i'r cais hwnnw.<br><br>**WYLFA NEWYDD A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG**<br><br>**CYFLWYNIAD**<br><br>**7.3.13** Mae'r Cynghorau a'u partneriaid wedi cydnabod potensial arwyddocaol Wylfa Newydd yn arbennig i'r economi leol yn Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynllun Strategol/ Corfforaethol y Cynghorau a'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Mae Pennod 3 o'r Cynllun yn rhoi dolen i'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn yr Wylfa, sy'n gosod allan cyngor ategol Cyngor Sir Ynys Môn ar faterion uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â'r prosiect hwn a'i ymateb i bolisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol yng nghyd-destun y prosiect. Mae'r rhan hon o'r Cynllun yn delio â'r Prosiect Wylfa Newydd arfaethedig gan gynnwys datblygiadau sy'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ceisiadau **datblygiadau cysylltiedig**. **Ar hyn o bryd, cyfundrefn Deddf Cynllunio 2008 yng Nghymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i "ddatblygiadau cysylltiedig" gael eu penderfynu dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan yr awdurdod cynllunio lleol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd Mesur Cymru yn caniatáu i "ddatblygiadau cysylltiedig" gael eu cynnwys mewn ceisiadau DCO ac felly'n cael eu caniatáu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r NSIP perthnasol".**<br><br>**7.3.13** ~~7.3.12~~ Er nad y Cynghorau yw'r awdurdodau sy'n rhoi caniatâd ar gyfer ~~Gorchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Wylfa Newydd Prosiectau Seilwaith Mawr,~~ NSIPs, ystyrir ei bod yn bwysig egluro'r ymagwedd a fyddant yn cymryd yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio pan fyddant yn derbyn ymgynghoriad am y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Byddant hefyd yn sicrhau bod datblygiadau cysylltiedig **nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cais DCO** yn cyd-fynd â strategaeth a pholisïau perthnasol y Cynllun hwn. **Boed yn eu rôl fel y rhai sy'n penderfynu, neu rai yr ymgynghori â hwy ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, bydd y Cynghorau'n ceisio cyflawni'n eu blaenoriaethau statudol fel y gwelir yn eu Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Strategol a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.**<br><br>~~7.3.13 Hyd nes y caiff y Cynllun ei fabwysiadu neu y bydd y polisïau perthnasol yn cario digon o bwysau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bydd y dull o ymdrin â datblygiadau perthnasol yn gysylltiedig a Wylfa Newydd yn adlewyrchu polisïau'r Cynllun Datblygu presennol, y Cynllun Datblygu Unedol a stopiwyd, polisïau cynllunio cenedlaethol a'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa. Boed yn eu rôl fel y rhai sy'n penderfynu, neu i ymgynghori â hwy ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, bydd y Cynghorau'n ceisio cyflawni'n eu blaenoriaethau statudol fel sydd i'w gweld yn eu Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Strategol a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.~~<br><br>7.3.14 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa yn amlinellu cyngor ategol Cyngor Sir Ynys Môn am faterion lleol | gysylltiedig ag ef lle mai naill ai Cyngor Sir Ynys Môn neu Gyngor Gwynedd yw'r awdurdod penderfynu ar geisiadau cynllunio<br><br>**7.3.14** Er nad y Cynghorau yw'r awdurdodau i roi caniatâd ar gyfer Gorchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Wylfa Newydd, ystyrir ei bod yn bwysig egluro'r ymagwedd a fyddant yn cymryd yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio pan fyddant yn derbyn ymgynghoriad am y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Byddant hefyd yn sicrhau bod datblygiadau cysylltiedig perthnasol yn cyd-fynd â strategaeth a pholisïau perthnasol y Cynllun pan gaiff ei fabwysiadu. Hyd nes y caiff y Cynllun ei fabwysiadu neu y bydd y polisïau perthnasol yn cario digon o bwysau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol, bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bydd y dull o ymdrin â datblygiadau perthnasol yn gysylltiedig â Wylfa Newydd yn adlewyrchu polisïau'r Cynllun Datblygu presennol, y Cynllun Datblygu Unedol a stopiwyd, polisïau cynllunio cenedlaethol a'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa.<br><br>**7.3.15** Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa yn amlinellu cyngor ategol Cyngor Sir Ynys Môn am faterion lleol pwysig uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn cyswllt â'r Prosiect hwn a'i ymateb i bolisi a strategaethau cenedlaethol a lleol yn y cyd-destun y Prosiect ac mae'n ystyriaeth berthnasol bwysig wrth asesu ceisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â'r Prosiect **ar gyfer datblygiadau cysylltiedig arfaethedig mewn cysylltiad â phrosiect Wylfa Newydd**.<br><br>Bydd y ddogfen CCA Adeiladu Niwclear Newydd yn Wylfa yn helpu'r Cyngor Sir i:<br><br>• wneud penderfyniadau cadarn ar yr holl waith galluogi a cheisiadau cynllunio datblygu cysylltiedig<br><br>• sicrhau bod effeithiau posibl yr Adeiladu Niwclear Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi a'u lliniaru lle bo'n bosibl<br><br>• sicrhau bod y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | pwysig uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn cyswllt â’r Prosiect hwn a’i ymateb i bolisi a strategaethau cenedlaethol a lleol yn y cyd-destun y Prosiect ac mae’n ystyriaeth berthnasol bwysig wrth asesu ceisiadau cynllunio sy’n gysylltiedig â’r Prosiect **ar gyfer datblygiadau cysylltiedig arfaethedig mewn cysylltiad â phrosiect Wylfa Newydd i’w benderfynu gan y Cynghorau.** yn gysylltiedig â’r Prosiect.<br><br>7.3.15 Bydd y ddogfen CCA Adeiladu Niwclear Newydd yn Wylfa yn helpu’r Cyngor Sir i:<br>• wneud penderfyniadau cadarn ar yr holl waith galluogi a cheisiadau cynllunio datblygu cysylltiedig dan **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**<br>• sicrhau bod effeithiau posibl yr Adeiladu Niwclear Newydd a’i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi a'u lliniaru lle bo'n bosibl<br>• sicrhau bod y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu **macsimeiddio** ~~gwireddu'n llawn~~.<br><br>7.3.16 Ar sail y wybodaeth sydd i law ar hyn o bryd mae’n glir y bydd y Prosiect hwn yn ddatblygiad arwyddocaol a fydd yn cael nifer o effeithiau arwyddocaol, rhai o bosibl yn bositif ac eraill o bosibl yn negyddol. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gwaith adeiladu Wylfa Newydd yn cymryd oddeutu 12 mlynedd, a bydd oddeutu 8,500 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnodau brig (er cydnabyddir bod y Prosiect yn dal i fod am gan dylunio manwl). Bydd symudiadau HGV arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu, yn arbennig ar hyd yr A55 a’r A5025. Ar ôl iddi gael ei hadeiladu rhagwelir y bydd Wylfa Newydd yn cyflogi tua 1,000 o weithwyr. Mae’r angen am lety i weithwyr adeiladu yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd yn fater y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi edrych arno’n fanwl. Rhagwelir dylifiad sydyn o nifer fawr o weithwyr i’r ardal yn ystod y cyfnod adeiladu. Credir ei bod hi’n bwysig bod **y Cynllun yn rhagweld a darparu fframwaith polisi priodol sy’n cynnwys darpariaeth o’r llety hwn** ~~yn gyson ag amcanion cyffredinol y Cynllun ac na fydd yn rhagfarnu gwireddu’r strategaeth ofodol.~~ Rhagwelir y caiff gweithwyr adeiladu lety trwy gyfuniad o ddulliau, sef unedau tai preifat i’w prynu a’u rhentu, llety gwyliau a llety gwyliau pwrpasol a gaiff ei ddarparu trwy Horizon neu gan drydydd parti. Ceir | gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu **macsimeiddio** ~~gwireddu'n llawn~~.<br><br>7.3.16 Ar sail y wybodaeth sydd i law ar hyn o bryd mae’n glir y bydd y Prosiect hwn yn ddatblygiad arwyddocaol a fydd yn cael nifer o effeithiau arwyddocaol, rhai o bosibl yn bositif ac eraill o bosibl yn negyddol. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gwaith adeiladu Wylfa Newydd yn cymryd oddeutu ~~12~~ **10** mlynedd, a bydd oddeutu ~~8,500~~ **8,000 to 10,000** o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnodau brig (er cydnabyddir bod y Prosiect yn dal i fod am gan dylunio manwl). Bydd symudiadau HGV arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu, yn arbennig ar hyd yr A55 a’r A5025. Ar ôl iddi gael ei hadeiladu rhagwelir y bydd Wylfa Newydd yn cyflogi tua ~~1,000~~ **850** o weithwyr. Mae’r angen am lety i weithwyr adeiladu yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd yn fater y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi edrych arno’n fanwl. Rhagwelir dylifiad sydyn o nifer fawr o weithwyr i’r ardal yn ystod y cyfnod adeiladu. Credir ei bod hi’n bwysig bod llety’n gyson ag amcanion cyffredinol y Cynllun ac na fydd yn rhagfarnu gwireddu’r strategaeth ofodol. Rhagwelir y caiff gweithwyr adeiladu lety trwy gyfuniad o ddulliau, sef unedau tai preifat i’w prynu a’u rhentu, llety gwyliau a llety gwyliau pwrpasol a gaiff ei ddarparu trwy Horizon neu gan drydydd parti. Ceir mwy o wybodaeth am y safbwynt yma yn http://www.anglesey.gov.uk/business/energy-island/energy-island-news/wylfa-nuclearnew-build-construction-workers-accomodation-positionstatement/114494.article?redirect=false ac yn y CCA Adeiladu Niwclear Newydd yn yr Wylfa yn http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2014/08/11/q/k/h/Wylfa-NNB-SPG-Adopted-July- 2014.pdf<br><br>7.3.17 Rhagwelir y bydd angen llety ar gyfer nifer fawr iawn o weithwyr adeiladu a gaiff eu cyflogi yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Rhagwelir hefyd y bydd angen tir yn gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd, e.e. safle(oedd) ar gyfer swyddfeydd, llety aros dros dro a defnyddiau eraill ar gyfer logisteg, storfa a gwneuthuriad oddi ar safle. Gallai mesurau lliniaru effaith y prosiect gael eu huchafu pe fyddai’r datblygiad yn cael ei leoli yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun, a welir ym Mhennod 6, a pholisïau perthnasol y Cynllun, yn dibynnu ar y math o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mwy o wybodaeth am y safbwynt hwn yn y ddolen ganlynol http://www.anglesey.gov.uk/business/energyisland/energy-island-news/wylfanuclear-new-build-constructionworkers-accomodationpositionstatement/114494.article?redirect=false ac yn y CCA Adeiladu Niwclear Newydd yn yr Wylfa yn http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2014/08/11/q/k/h/Wylfa-NNBSPG-Adopted-July-2014.pdf<br><br>7.3.17 Rhagwelir y bydd angen llety ar gyfer nifer fawr iawn o weithwyr adeiladu a gaiff eu cyflogi yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Rhagwelir hefyd bydd angen tir yn gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd, e.e. safle(oedd) ar gyfer swyddfeydd, llety aros dros dro a defnyddiau eraill ar gyfer logisteg, storfa a gwneuthuriad oddi ar safle. ~~Gallai mesurau lliniaru effaith y prosiect gael eu huchafu pe fyddai'r datblygiad yn cael ei leoli yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun, a welir ym Mhennod 6, a pholisïau perthnasol y Cynllun, yn dibynnu ar y math o ddefnydd, er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy.~~ **Bydd lleoli'r datblygiad hwn yn cael ei wneud yn unol â pholisïau WNP1, WNP2, ac WNP3.**<br><br>7.3.18 Safbwynt y Cynghorau yw y dylid lleoli Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro (TCPA) i'r graddau y bo'n bosib, o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu Canolfannau a Phentrefi Gwasanaeth a enwir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun, mewn lleoliadau sydd â chysylltiad da a'r prif lwybrau teithio a dulliau theithio, yn arbennig y rheilffordd. Dylent hefyd gyfrannu at raglenni adfywio cynaliadwy a chefnogi bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi. Dylai hyrwyddwr y prosiect ystyried ailddefnyddio adeiladau presennol lle bo'n ymarferol i wneud hynny. Bydd y Cynghorau hefyd yn ystyried y dylid edrych ar y posibilrwydd o ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau a ddefnyddir yn y lle cyntaf ar gyfer llety gweithwyr neu unrhyw ddefnydd tir arall dros dro adeg cynllunio a dylunio'r cynllun, e.e. trwy gynllunio'r safle o'r cychwyn fel ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio eto, codi adeiladau parhaol sy'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd cymunedol neu fasnachol yn y dyfodol. Bydd defnyddiau etifeddiaeth priodol arfaethedig yn cael eu **hasesu ar gyfer cydymffurfiaeth â pholisïau perthnasol yn y** ~~gydymffurfio â'r polisïau perthnasol fod yn~~ | ddefnydd, er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy.<br><br>7.3.18 Safbwynt y Cynghorau yw y dylid lleoli llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu dros dro symudol, i'r graddau y bo'n bosib, o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu Canolfannau a Phentrefi Gwasanaeth a enwir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun, mewn lleoliadau sydd â chysylltiad da â'r prif lwybrau teithio a dulliau theithio, yn arbennig y rheilffordd. Dylent hefyd gyfrannu at raglenni adfywio cynaliadwy a chefnogi bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi. Dylai hyrwyddwr y prosiect ystyried ailddefnyddio adeiladau presennol lle bo'n ymarferol gwneud hynny. Bydd y Cynghorau hefyd yn ystyried y dylid edrych ar y posibilrwydd o ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau a ddefnyddir yn y lle cyntaf ar gyfer llety gweithwyr neu unrhyw ddefnydd tir arall dros dro adeg cynllunio a dylunio'r cynllun, e.e. trwy gynllunio'r safle o'r cychwyn fel ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio eto, codi adeiladau parhaol sy'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd cymunedol neu fasnachol yn y dyfodol. Bydd rhaid i bob ddefnydd etifeddiaeth arfaethedig priodol gydymffurfio â'r polisïau perthnasol fod yn gyson a'r Cynllun yma yn y Cynllun hwn. Mae defnyddiau etifeddiaeth posib yn cynnwys lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer tai fforddiadwy, llety ar gyfer yr henoed neu anghenion arbennig, llety myfyrwyr, swyddfeydd neu westai neu adeiladau a ellir eu haddasu i ddibenion tebyg. Os yw hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor yn cytuno nad yw defnydd ôl-ddatblygu'n ymarferol, rhaid cael gwared â'r adeiladau neu strwythurau dros dro a dychwelyd y tir i'w gyflwr blaenorol i safon i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn cyfnod penodol a fyddai'n cael ei reoli trwy amod cynllunio. Mae Polisi TAI3 yn gosod y cyd-destun polisi ar gyfer llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu ac mae Polisi TAI8 yn gosod cyd-destun y polisi mewn perthynas â defnydd anheddol o lety gwyliau gan weithwyr adeiladu dros dro.<br><br>7.3.19 Mae Polisi Strategol PS9 yn berthnasol i'r Prosiect Wylfa Newydd arfaethedig gan gynnwys datblygiadau cysylltiedig. Nid yw Polisi Strategol PS9 yn berthnasol i unrhyw gais NSIP arall, nac unrhyw ddatblygiad sy'n gysylltiedig â, neu sydd ynghlwm wrth, geisiadau NSIP |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ~~gyson a'r Cynllun yma yn y~~ Cynllun. Mae defnyddiau etifeddiaeth posib yn cynnwys lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer tai fforddiadwy, llety ar gyfer yr henoed neu anghenion arbennig, llety myfyrwyr, swyddfeydd neu westai neu adeiladau a ellir eu haddasu i ddibenion tebyg. Os yw hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor yn cytuno nad yw defnydd ôl-ddatblygu'n ymarferol, rhaid cael gwared â'r adeiladau neu strwythurau dros dro a dychwelyd y tir i'w gyflwr blaenorol i safon i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn cyfnod penodol a fyddai'n cael ei reoli trwy amod cynllunio."<br><br>Nid yw'r Cynghorau yn derbyn bod y Cynllun yn achosi dryswch na'i fod yn anhyblyg oherwydd fod y datblygiadau hysbys hyn wedi cael eu cynnwys yn y maes polisi ehangach, ond cytunwyd i rywfaint o newid geiriad yn y paragraffau er mwyn eglurder ac i ddiweddaru'r wybodaeth a gynhwysir yn y paragraffau. | o'r fath. Dylai'r HRA lefel prosiect gael ei hysbysu gan ganfyddiadau a chasgliadau'r HRA: Adroddiad Safle ar gyfer 7.3 |
| 19 | NF45 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Economi ac Adfywio, Polisi PS9: Datblygiadau Cysylltiedig yn ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd<br><br>Nododd Horizon ei bod yn ymddangos fod gwall teipio neu eiriau wedi'u hepgor ym mrawddeg olaf y polisi.<br><br>Cynigiodd y Cynghorau gynnwys y canlynol yn y paragraff rhagarweiniol yn y fersiwn Saesneg i gyd-fynd â'r Gymraeg:<br><br>"Mae cyfyngiadau amgylcheddol yn y canolfannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynllun ddyrannu safle yn Y Ffôr" | Cytunwyd. |
| 20 | NF63 | Pennod 7.4<br><br>Ystyria Horizon mai'r unig elfen o Bennod 7.4 a ddylai fod yn berthnasol i strategaeth llety gweithwyr Wylfa Newydd ac, yn fwy penodol, i agweddau ar y llety gweithwyr, yw Polisi TAI3. Cynigiodd Horizon y dylid mewnosod | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI 3 sy'n egluro'r polisïau a fydd yn berthnasol i lety gweithwyr dros dro, a fydd yn disodli'r pwynt hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | paragraff newydd 7.4.11 i ymdrin â hyn. | |
| 21 | NF91 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Polisi GWA3: Triniaeth a Storio Gwastraff Ymbelydrol Lefel Isel ac Isel Iawn<br><br>Gofynnodd Horizon am fewnosod diffiniad newydd o wastraff lefel isel ac isel iawn fel a ganlyn:<br><br>"Mae Gwastraff Lefel Isel (GLI) (gan gynnwys Gwastraff Lefel Isel Iawn (GLII)) â chynnwys ymbelydrol nad yw'n fwy na 4 GBq (Giga becquerel) am bob tunnell o weithgaredd alpha, neu 12 GBq fesul tunnell o weithgaredd beta/ gama. Mae GLII yn is-gategori o GLI; diffinnir GLII fel gwastraff gyda chrynodiadau uchaf o 4 MBq (Mega becquerel) y dunnell o gyfanswm y gweithgaredd. Ar gyfer gwastraff sy'n cynnwys tritiwm, y terfyn crynodiad ar gyfer tritiwm yw 40 MBq/te."<br><br>Mae hwn yn cymryd lle'r diffiniad blaenorol:<br><br>Gwastraff lefel isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol sydd â chynnwys ymbelydrol heb fod yn fwy na 4 GBq/te (gigabecquerels y dunnell) o weithgaredd alpha neu 12 GBq/te o weithgaredd beta / gama. GLI yw mwy na 90% o etifeddiaeth gwastraff ymbelydrol y DU yn ôl cyfaint, ond mae'n cynnwys llai na 0.1% o gyfanswm yr ymbelydredd. Mae gwastraff lefel isel iawn (GLII) yn is-gategori o GLI ac fe'i diffinnir fel naill ai GLII cyfaint isel neu GLII cyfaint uchel. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen am reolaethau ar gyfanswm y cyfeintiau o GLII cyfaint uchel a gaiff ei gludo i unrhyw dirlenwi penodol neu unrhyw gyfleuster gwastraff arall.<br><br>Mae'r Cynghorau yn cytuno y dylai'r diffiniad gael ei ddiwygio i gyd-fynd â strategaeth gyfredol y DU ar gyfer rheoli lefel gwastraff isel a gwastraff isel iawn ond nid ydynt yn derbyn geiriad Horizon. Mae'r diffiniad a gynigir gan y Cynghorau fel a ganlyn:<br><br>"Gwastraff Lefel Isel (GLI)<br><br>Yn cynnwys metelau, pridd, rwbel adeiladu a deunyddiau organig, sy'n | Cytuno'n rhannol - mae'r Cynghorau a Horizon yn cytuno y dylai'r diffiniad gyd-fynd â strategaeth gyfredol y DU ar gyfer rheoli GLI a GLII. Fodd bynnag, mae Horizon yn parhau i geisio defnyddio'u diffiniad arfaethedig. |

codi’n bennaf fel gwastraff amrywiol wedi’i halogi’n ysgafn. Mae metelau yn bennaf ar ffurf offer diangen. Mae defnyddiau organig yn bennaf ar ffurf tywelion papur, dillad ac offer labordy sydd wedi cael eu defnyddio mewn ardaloedd lle defnyddir deunyddiau ymbelydrol - megis ysbytai, sefydliadau ymchwil a diwydiant.  Mae GLI yn cynnwys deunyddiau ymbelydrol ar wahân i'r rhai sy'n dderbyniol i’w gwaredu gyda gwastraff masnachol neu ddiwydiannol trefol a chyffredinol. Fe'i diffinnir fel: "gwastraff ymbelydrol sydd â chynnwys ymbelydrol nad yw'n fwy na phedair gigabecquerels y dunnell (GBq/te) o ymbelydredd alpha neu 12 GBq / te o ymbelydredd beta/ gamma".

Gwastraff lefel isel iawn (GLII)

Yn cynnwys gwastraff gyda chrynodiadau isel iawn o ymbelydredd. Mae'n deillio o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys ysbytai a'r diwydiant di-niwclear ehangach. Gan mai cyfanswm bach o ymbelydredd sydd mewn GLII, mae wedi cael ei drin yn ddiogel drwy amryw ddulliau, megis gwaredu â gwastraff masnachol a diwydiannol trefol a chyffredinol yn uniongyrchol mewn safleoedd tirlenwi neu'n anuniongyrchol ar ôl llosgi. Ei ddiffiniad ffurfiol yw:

(a) yn achos meintiau isel ('llwythi bin sbwriel') o GLII "gwastraff ymbelydrol y gellir ei waredu'n ddiogel i gyrchfan amhenodol â gwastraff trefol, masnachol neu ddiwydiannol (gwaredu “bin sbwriel”), gyda phob 0.1m3 o wastraff yn cynnwys llai na 400 kilobecquerels (kBq) o gyfanswm y gweithgaredd neu eitemau unigol sy'n cynnwys llai na 40 kBq o gyfanswm y gweithgaredd.

Ar gyfer gwastraff sy'n cynnwys carbon-14 neu hydrogen-3 (tritiwm):

(i) ym mhob 0.1m3, mae’r terfyn gweithgaredd yn 4,000 kBq ar gyfer carbon 14 a hydrogen-3 (tritiwm) o'u cymryd gyda'i gilydd

(ii) ar gyfer unrhyw eitem unigol, mae’r terfyn gweithgaredd yn 400 kBq ar gyfer carbon-14 a hydrogen-3 (tritiwm) o'u cymryd gyda'i gilydd. Nid oes angen rheolaethau ar waredu deunydd hwn, ar ôl ei symud o'r safle lle

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cododd y gwastraff.<br><br>(b) yn achos cyfaint uchel o GLII "gwastraff ymbelydrol gyda chrynoadau uchafswm o bedwar megabecquerels y dunnell (MBq/te) o gyfanswm y gweithgaredd y gellir ei waredu i safleoedd tirlenwi penodol. Ar gyfer gwastraff sy'n cynnwys hydrogen-3 (tritiwm), y terfyn crynodiad gyfer tritiwm yw 40MBOte. Bydd angen rheolaethau ar waredu'r deunydd hwn, ar ôl ei symud o'r safle lle cododd y gwastraff, mewn modd a bennir gan y rheolyddion amgylcheddol ". | |
| 22 | NF97 | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig, Polisi MWYN9: 'Pyllau Benthyg'<br><br>Ceisiodd Horizon ddileu'r testun dilynol o'r testun sy'n cefnogi 7.5.81<br><br>"~~Mae angen cael buddion amgylcheddol clir ar gyfer defnyddio pwll benthyg yn hytrach na chyflenwi o agregau eilaidd neu wedi'u hailgylchu, neu o safleoedd gwaith mwynau sefydledig a nodir yn y cynllun datblygu~~." | Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen. |
| 23 | NF134 | Map cynigion<br><br>Ystyriai Horizon y dylid parhau i ddangos "Ardaloedd Gwella'r A5025" ar y Map cynigion | Cytunwyd – yn ganlyniadol i newid a nodir yn llinell 14 o'r tabl hwn, cytunodd y partïon i ailgynnwys yr A5025 yn y map cynigion |
| 24 | NF- | Polisi ISA2 Cyfleusterau Cymunedol<br><br>Gofynnodd Horizon am gael ychwanegu'r canlynol at ddiwedd Polisi ISA2:<br><br>***"Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r polisi uchod yn berthnasol i gyfleusterau cymunedol sy'n dod ymlaen fel rhan integredig o Lety ar Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ar raddfa fawr a ddarperir mewn cysylltiad â Phrosiect Wylfa Newydd.<br>Caniateir cyfleusterau cymunedol newydd ar safleoedd Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ar raddfa fawr, lle mae'r cynghorau yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, lle maent yn ofynnol i ymdrin ag*** | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI 3 sy'n egluro pa bolisïau a fydd yn berthnasol i lety gweithwyr adeiladu dros dro, ac a fydd yn disodli'r pwynt hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ***effaith neu'r galw ychwanegol a nodwyd am gyfleusterau cymunedol, gan gynnwys siopau a darpariaeth gofal iechyd. Yna bydd colled cyfleusterau o'r fath a p'un a ydynt yn fwy na'r angen yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ystyried defnydd etifeddiaeth priodol."*** | |
| 25 | NF- | Polisi ISA3 Datblygiadau Addysg Bellach Ac Uwch a Chyfleusterau Hyfforddiant Sector Preifat<br><br>Mynegodd Horizon bryder na fyddai'r polisi fel y'i drafftiwyd yn caniatáu darparu cyfleusterau hyfforddi ac addysg pwrpasol ar gyfer Prosiect Wylfa ar y safle neu yng nghyffiniau Prosiect Wylfa. Mae'r partïon yn cytuno bod angen gallu darparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant tu allan i sefydliadau addysg uwch, yn enwedig lle mae busnesau angen cyfleusterau hyfforddi pwrpasol. Cytunwyd ar ddiwygiad i'r polisi i ganiatáu cyfleusterau o'r fath.<br><br>POLISI ISA3: DATBLYGIADAU ADDYSG BELLACH AC UWCH A CHYFLEUSTERAU HYFFORDDIANT SECTOR PREIFAT<br><br>Caniateir cynigion am gyfleusterau newydd neu estyniadau i adeiladau presennol er dibenion academaidd neu gefnogol, neu ar gyfer gweithgareddau atodol cymdeithasol, diwylliannol neu hamdden ar safle addysg bellach neu uwch, cyn belled â bod yr ystyriaethau graddfa, lleoliad, dyluniad, mwynderau a chludiant yn dderbyniol. Dylid rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio safleoedd neu adeiladau presennol.<br><br>Dylid defnyddio'r prawf dilyniannol wrth bennu lleoliad datblygiadau addysg bellach ac uwch, a dylid rhoi blaenoriaeth i safleoedd a leolir:<br><br>1. Yn gyntaf, ar safleoedd addysg bellach ac uwch presennol; neu<br><br>2. Yn ail, ar safleoedd a chanddynt gysylltiad agos gyda champws presennol. | Cytuna'r partïon bod NMC yn cael ei gynnig i fewnosod geiriad pellach i Bolisi ISA3.<br><br>Cytuna'r partïon ymhellach bod safle prosiect Wylfa Newydd yn safle busnes i ddibenion y polisi hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **<u>Bydd cyfleusterau addysg a hyfforddiant neu sefydliadau tebyg sy'n gwella'r sylfaen hyfforddi a sgiliau, ac sy'n annog busnesau seiliedig ar wybodaeth neu fusnesau arbenigol nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliad addysg uwch sy'n bodoli eisoes, yn cael eu lleoli:</u>**<br><br>**<u>1. o fewn neu gerllaw ffiniau datblygu, neu</u>**<br><br>**<u>2. ar dir cyflogaeth a ddiogelwyd neu a ddyrannwyd, neu</u>**<br><br>**<u>3. mewn amgylchiadau eithriadol, mae'r safle yn perthyn yn agos i safle busnes presennol neu safle busnes a ganiatawyd sydd â chysylltiadau da ac sy'n galluogi staff a myfyrwyr i gyrraedd y safle heb ddefnyddio ceir preifat.</u>** | |
| 26 | NF- | Polisi ISA5 Darpariaeth Mannau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd<br><br>Gofynnodd Horizon am gael ychwanegu'r canlynol at ddiwedd Polisi ISA5:<br><br>"**Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r polisi uchod yn ymwneud â Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro a ddarperir mewn cysylltiad â Phrosiect Wylfa Newydd. Bydd ceisiadau ar gyfer Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro, lle mai'r Cyngor sy'n gwneud penderfyniadau, yn cymryd i ystyriaeth i ba raddau y maent yn darparu digon o gyfleusterau hamdden a chymunedol, gan gynnwys mannau agored, er mwyn diwallu anghenion y preswylwyr arfaethedig.**" | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI3 sy'n egluro'r polisiau a fydd yn berthnasol i lety gweithwyr adeiladu dros dro, ac a fydd yn disodli'r pwynt hwn. |
| 27 | NF- | Pennod 7 Rheoli twf a datblygu – Byw cynaliadwy<br><br>Polisi PS5 "Datblygiad Cynaliadwy"<br><br>Gofynnodd Horizon am ostyngiad yn y croesgyfeirio at bolisïau eraill i leihau'r risg o gylchogrwydd, ailadrodd ac anghysondeb wrth gymhwyso'r polisi hwn. | Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | NF- | Polisi PS9 Datblygiadau Cysylltiedig Yn Ymwneud Â Phrosiect Wylfa Newydd<br><br>Cynigiodd Horizon Bolisi WNP4 newydd penodol i'r Wylfa – Gweithiau cynnar<br><br>Cytunodd y partïon pe na byddai cyfres o bolisïau penodol i'r Wylfa yn cael eu cynnwys, nid ymdrinnir yn llawn ag egwyddorion WNP4 yn y polisi presennol, a byddai ychwanegiad at Bolisi PS9 o fudd.<br><br>POLISI STRATEGOL PS9: DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG YN YMWNEUD Â PHROSIECT WYLFA NEWYDD<br><br>Yn ei rôl naill ai fel yr awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig, neu fel un i ymgynghori ag ef ar gyfer ceisiadau DCO i Wylfa Newydd a cheisiadau i gyrff eraill, ac o fewn darpariaethau polisi cenedlaethol, bydd y Cynghorau, wrth asesu ac ymateb i gynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer Wylfa Newydd a'i ddatblygiadau ategol yn ymwneud â niwclear, yn cynnwys yr hyn sy'n gysylltiedig gyda neu'n ategol at yr orsaf ynni niwclear bresennol neu Wylfa Newydd, yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n briodol neu'n berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol:<br><br>1. Dylai unrhyw bolisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, ac unrhyw ganllawiau cynllunio atodol, siapio'r dull o ddatblygu'r orsaf ynni niwclear a chynigion ar gyfer datblygiad yn ymwneud â niwclear ac unrhyw ddatblygiadau neu seilwaith cysylltiedig; ac<br><br>2. Er mwyn cael cyn lleied o effaith ag y bo modd a chymaint ag y bo modd o ailddefnyddio'r cyfleusterau a deunyddiau sy'n bodoli'n barod, cymerwyd cyfleoedd lle bu'n ymarferol i integreiddio gofynion adeiladu niwclear newydd yn yr Wylfa gyda'r bwriad i ddadgomisiynu'r orsaf bŵer bresennol; a<br><br>3. Bydd cynigion priffyrdd a chludiant ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn ffurfio rhan o gynllun trafnidiaeth a logisteg y strategaeth traffig a | Cytuna'r partïon bod NMC yn cael ei gynnig i fewnosod geiriad pellach i Bolisi PS9. |

thrafnidiaeth integredig gadarn sy’n ystyried Polisi Strategol PS4 ac unrhyw bolisïau manwl perthnasol yn y Cynllun ac yn lleihau’r effeithiau niweidiol o ran trafnidiaeth i lefel sy’n dderbyniol, yn cynnwys y rhai sy’n codi yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu, a dadgomisiynu ac adfer. Dylai cynigion, lle bo’n ymarferol, wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion polisi trafnidiaeth yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy’n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio; a

4. Bydd y gweithiau cynnar neu baratoadol ar gyfer datblygu'r orsaf ynni niwclear yn dangos eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau darpariaeth amserol o Brosiect Wylfa Newydd neu fod wedi'u cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau adeiladu neu weithredu Prosiect Wylfa Newydd. Rhaid i unrhyw weithiau cynnar neu baratoadol fod â strategaeth i alluogi adfer safleoedd i safon dderbyniol pe na byddai’r Prosiect yn cael caniatâd neu ddim yn cael ei adeiladu, a sut y bydd y gost o ymgymryd ag adfer o'r fath yn cael ei sicrhau, gan gynnwys trwy ddefnyddio bond.

5. Dylai gofynion llety gweithwyr adeiladu gael eu diwallu mewn ffordd sy'n lleihau effaith ar y farchnad dai leol, gan gynnwys gallu'r rheini sydd ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy a gwasanaethau tai eraill, neu beidio arwain at effeithiau economaidd, andwyol cymdeithasol, ieithyddol neu amgylcheddol annerbyniol. Dylai cynigion ffurfio rhan o strategaeth llety gweithwyr adeiladu cadarn sy'n rhoi sylw i Strategaeth Ofodol y Cynllun ac unrhyw bolisïau perthnasol yn y Cynllun; ac

6. Dylai safle a dyluniad y datblygiad cysylltiedig gael eu llywio gan ystyriaeth o'r defnyddiau etifeddiaeth, fel bod buddsoddi mewn elfennau fel seilwaith, adeiladau, gweithiau ecolegol a thirwedd yn dod â manteision tymor hir. Lle bo'n briodol, dylid cytuno ar gyflenwi cynlluniau ar gyfer defnyddiau etifeddiaeth yn ystod y broses cyn gwneud cais a fydd yn llywio'r dull o ddylunio a chynllunio’r safleoedd datblygiadau cysylltiedig, yn ogystal â fframio cytundebau A106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau CIL (os yn berthnasol); a

7. Dylai’r modd y mae’r cynllun yn cael ei gynllunio a’i ddyluniad a graddfa’r

seilwaith gwyrdd arfaethedig osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am effeithiau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach, yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Bydd disgwyl i gynigion fod yn gymesur gyda graddfa'r datblygiad, a maint ei effaith; a

8. Dylid cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, sy'n cwrdd â gofynion sgrinio unrhyw gais datblygu, gan gynnwys bob datblygiad cysylltiedig, yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) gydag unrhyw gynnig am ddatblygiad, gan gynnwys pob datblygiad ategol ac anwythol; a hefyd a lle bo angen, dylid cael asesiad priodol i gyd-fynd ag ef; a

9. Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio'r hyrwyddwr, gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach; a

10. Lle bydd seilwaith cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden, lle bo'n ymarferol dylai'r rheiny gael eu lleoli a'u dylunio fel eu bod ar gael i'r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo'n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle bydd effeithiau neu alwadau ychwanegol yn digwydd ar gyfleusterau cymunedol sy'n bodoli'n barod, bydd y Cyngor yn ceisio cael naill ai cyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle neu am uwchraddio cyfleusterau presennol. Dylid ystyried defnydd etifeddiaeth o unrhyw gyfleusterau ychwanegol a ddarperir ble bo hynny'n briodol; a

11. Dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymunedol a diogelwch cymunedol; a

12. Dylai'r baich a'r tarfu at y gymuned oherwydd ei bod yn lleoliad i brosiect mawr cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud gyda'r diwydiant niwclear gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i wirfoddoli i

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned am y baich a'r tarfu sy'n digwydd trwy fod yn lleoliad i'r prosiect; a<br><br>13. Byddai angen i unrhyw gynnig (tu allan i Orchymyn Caniatâd Datblygu) ar gyfer trin, storio neu gael gwared â Gwastraff Lefel Isel Iawn, Lefel Isel neu Lefel Canolig neu i drin neu storio gweddillion tanwydd sy'n deillio o'r orsaf bŵer niwclear bresennol neu unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol du mewn i neu du allan i ardal y Cynllun, mewn cyfleuster sy'n bodoli'n barod neu yn yr arfaeth ar neu du allan i'r safle niwclear fod:<br><br>i. Gyda chyfiawnhad cryf drosto;<br><br>ii. Yn dangos bod yr effeithiau cynllunio'n dderbyniol; a hefyd<br><br>iii. Yn dangos y byddai'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gryfach nag unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na ragwelwyd o adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, y bydd y Cynghorau angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo, ac efallai, o ganlyniad i hynny, y byddant eisiau ail negodi unrhyw becyn lliniaru neu ddigolledu er mwyn gwneud iawn am unrhyw effeithiau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned yr effeithir arni. Dylai'r datblygwr gynnwys mecanweithiau adolygu er mwyn monitro'r amrediad llawn o effeithiau, ac adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lliniaru neu ddigolledu, a gwneud newidiadau fel bo angen. | |
| 29 | NF- | Polisi Arfaethedig penodol i'r Wylfa – WNP4<br><br>Cynigiodd Horizon bolisi newydd penodol i'r Wylfa ar weithiau cynnar fel rhan o gyfres o bolisïau penodol i'r Wylfa.<br><br>Polisi WNP4 newydd i ddarllen:<br><br>Bydd yr angen cenedlaethol brys a nodir mewn polisi cenedlaethol ar gyfer | Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen gan fod y polisi arfaethedig hwn wedi cael ei ddisodli gan y newid a wnaed i Bolisi PS9 ar linell 28 o'r tabl hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cynhyrchu niwclear newydd yn cael ei gydnabod a chefnogir mewn egwyddor gwneud gweithiau paratoadol cynnar ar y safle ac oddi ar y safle i alluogi darpariaeth Prosiect Wylfa Newydd cyn gynted ag y bo modd. Bydd angen i unrhyw gynigion o'r fath ddangos:<br><br>• eu bod naill ai'n angenrheidiol i alluogi darpariaeth amserol o Brosiect Wylfa Newydd neu'n fesurau i ddarparu lliniaru i effeithiau niweidiol posibl; ac<br><br>• os nad yw Prosiect Wylfa Newydd yn dod ymlaen, y gall y safleoedd gael eu hadfer neu byddant yn darparu etifeddiaeth fuddiol. Ystyrir y dylai unrhyw destun esboniadol sy'n ymwneud â'r Polisi WNP4 arfaethedig gydnabod effaith bosibl Mesur Cymru a'r effaith debygol a gaiff hwn ar gyfundrefn Deddf Cynllunio 2008, gan o bosibl ganiatáu i "ddatblygiadau cysylltiedig" ar gyfer NSIPs cynhyrchu trydan mawr yng Nghymru gael caniatâd trwy DCOs. | |
| 30 | NF- | Polisi PS12: Canol Trefi a Datblygiadau Manwerthu<br><br>Gofynnodd Horizon am gael ychwanegu'r canlynol at ddiwedd Polisi PS12:<br><br>**"Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r polisi uchod yn berthnasol i gyfleusterau manwerthu a chyfleusterau hamdden sy'n dod ymlaen fel rhan o Lety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ar raddfa fawr a ddarperir mewn cysylltiad â Phrosiect Wylfa Newydd. Rhoddir caniatâd i gyfleusterau manwerthu a hamdden newydd ar safleoedd Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ar raddfa fawr, lle bo'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau, lle maent yn ofynnol i ymdrin ag effaith a nodwyd neu alw ychwanegol am gyfleusterau o'r fath"** | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI3 sy'n egluro'r polisiau a fydd yn berthnasol i lety gweithwyr adeiladu dros dro, ac a fydd yn disodli'r pwynt hwn. |
| 31 | NF- | Polisi PS14: Tai Fforddiadwy<br><br>Gofynnodd Horizon am gael ychwanegu'r geiriad canlynol ar ddiwedd Polisi PS14: | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI3 sy'n egluro'r polisiau a fydd yn berthnasol i lety gweithwyr adeiladu dros dro, ac a fydd yn disodli'r pwynt |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **"Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i Lety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro a ddarperir mewn cysylltiad â Phrosiect Wylfa Newydd, ond bydd yn ystyriaeth mewn unrhyw geisiadau cynllunio yn y dyfodol ar gyfer defnyddiau etifeddiaeth briodol i safleoedd o'r fath.**" | hwn. |
| 32 | NF- | Polisi PS16: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol<br><br>Ystyria Horizon bod angen aralleirio polisïau PS16 ac AMG1-5 i roi mwy o hyblygrwydd fel y gellir caniatáu cynigion y rhagwelir fydd yn cael effaith andwyol, yn amodol ar nodi a gweithredu mesurau lliniaru digonol, a gefnogir gan gynllun gweithredu priodol | Datryswyd.<br><br>Cytuna'r partïon y bydd diwygiad yn cael ei gynnig i Bolisi PS16 fel a ganlyn:<br><br>POLISI STRATEGOL PS16: GWARCHOD A GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL<br><br>Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun a gwrthodir cynigion a fydd yn cael effaith andwyol **<u>sylweddol</u>** arnynt **<u>oni bai bod yr angen am y datblygiad a'i fuddion yn y lleoliad hwnnw yn amlwg yn gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal, a gwarchodaeth polisi cenedlaethol i'r safle neu'r ardal honno</u>**. Wrth ystyried caniatáu cais bydd yr Awdurdodau Cynllunio yn gwneud yn siŵr eu bod yn:<br><br>1. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes, yr arfordir a thirweddau ardal y Cynllun;<br>2. Gwarchod a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a ble'n berthnasol eu gosodiad yn unol â Pholisi Cenedlaethol;<br>3. Rhoi sylw i arwyddocâd cymharol y dynodiadau wrth ystyried y pwysau i roi ar fuddiannau cydnabyddedig yn unol â Pholisi Cenedlaethol;<br>4. Gwarchod a gwella bioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a gwella a/neu adfer rhwydwaith cynefinoedd naturiol yn unol â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn unol â Pholisi AMG 4; |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 5. Gwarchod a gwella bioamrywiaeth drwy rwydwaith o Seilwaith gwyrdd/ glas;<br>6. Diogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol;<br>7. Gwarchod, parchu, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (yn unol â Pholisi AMG2) ac Ardal Cymeriad y Morlun (yn unol â Pholisi AMG3).<br>8. Gwarchod, parchu, cadw neu wella coed, gwrychoedd, coetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a mwynderol. |
| 33 | NF- | Polisi MAN6: Manwerthu yn y Cefn Gwlad<br><br>Gofynnodd Horizon am gael ychwanegu'r maen prawf newydd canlynol i Bolisi MAN6:<br><br>**7. "Darperir y cyfleuster i ddiwallu angen lleol a gynhyrchir gan Lety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro a gyflenwir mewn cysylltiad â Phrosiect Wylfa Newydd."** | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI3 sy'n egluro'r polisiau a fydd yn berthnasol i lety gweithwyr adeiladu dros dro, ac a fydd yn disodli'r pwynt hwn. |
| 34 | NF- | Polisi TWR1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr<br><br>Gofynnodd Horizon am ychwanegiad at bolisi TWR1 i ddarparu nad oedd yn berthnasol i ddatblygiadau cysylltiedig Wylfa Newydd, yn enwedig y ganolfan ymwelwyr. Mae'r Cynghorau yn derbyn bod rhaid i ganolfannau ymwelwyr o'r fath, oherwydd eu natur, gael eu lleoli yn agos at y cyfleuster y maent yn ymwneud ag ef; fodd bynnag, maent yn ystyried bod hyn yn berthnasol yn ehangach na datblygiadau cysylltiedig Wylfa Newydd yn unig. Mae'r partïon wedi cytuno yn unol â hynny ar ddiwygiad ar yr egwyddor o ganiatáu lleoli cyfleusterau yn agos at yr atyniad y maent yn berthnasol iddo.<br><br>POLISI TWR1: ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU YMWELWYR<br><br>Anogir cynigion i ddatblygu atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd | Datryswyd.<br><br>Cytuna'r partïon bod diwyigad yn cael ei gynnig i fewnosod geiriad pellach i Bolisi TWR1. |

neu i wella ac ehangu safon y cyfleusterau sy'n bodoli eisoes i leoli i safleoedd tu mewn i'r ffin ddatblygu.

Pan nad oes cyfleoedd addas ar gael tu mewn i'r ffin ddatblygu, dim ond cynigion sy'n cynnwys yr canlynol a ganiateir:

1. Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle addas a ddefnyddiwyd o'r blaen, neu

2. Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle sydd â chyswllt agos ag adeiladau presennol eraill sy'n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaeth presennol, neu

3. Gweithgaredd sy'n gyfyngedig i leoliad penodol oherwydd ei ddefnydd priodol o adnodd hanesyddol neu naturiol **<u>neu ei agosrwydd i'r atyniad y mae'n gysylltiedig ag ef</u>**.

Bydd gofyn i'r holl gynigion gydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:

1. Lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, gellir cael at y datblygiad trwy amryw o ddulliau teithio, yn enwedig dulliau teithio cynaliadwy megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus;

2. Mae graddfa, math a chymeriad y datblygiad arfaethedig yn addas i'w leoliad trefol/gwledig;

3. Mae'r datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad;

4. Bydd y datblygiad arfaethedig yn cefnogi ac yn ehangu'r ystod o gyfleusterau yn ardal y Cynllun;

5. Mae'r bwriad yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth i ddangos y byddai cyfleoedd cyflogaeth leol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 35 | NF - | Polisi TWR2: Llety Gwyliau<br><br>Pennod 7, paragraff 7.3.55 -7.3.80<br><br>Gofynnodd Horizon am gael ychwanegu'r canlynol at ddiwedd paragraff 7.3.55 sy'n egluro nad yw polisi TWR2 yn berthnasol i gynigion i sefydlu safleoedd carafanau gwyliau statig neu deithiol, cabannau gwyliau neu safleoedd gwersylla moethus arall newydd:<br><br>**"Neu Lety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro sy'n dod ymlaen fel rhan o Brosiect Wylfa Newydd."** | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI3 sy'n egluro'r polisiau a fydd yn berthnasol i lety gweithwyr adeiladu dros dro, ac a fydd yn disodli'r pwynt hwn. |
| 36 | NF- | Polisi ARNA1: ARDAL RHEOLI NEWID ARFORDIROL (ARhNA)<br><br>Awgrymodd Horizon ddiwygio Polisi ARNA1 i ychwanegu seilwaith hanfodol sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd at y rhestr o ddatblygiad a ganiateir yn yr ARhNA, yn amodol ar Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â TAN 15. Mae'r Cynghorau o'r farn y byddai cyfleusterau morol a leolir ar yr arfordir o reidrwydd yn ffurfio eithriad naturiol i hyn, ac fel seilwaith hanfodol mae'n eitem yn ei hawl ei hun - nid yw'n angenrheidiol rhestru pob enghraifft bosibl. | Mae'r Cynghorau wedi cadarnhau bod y polisi hwn yn ceisio diogelu datblygiad ar y tir rhag effeithiau newid arfordirol ac, felly, ni fydd yn berthnasol i elfennau morol Wylfa Newydd. Cytunodd Horizon ar ôl derbyn y cadarnhad hwn na fyddant yn mynd ar drywydd y newid i'r geiriad. |
| 37 | NF- | Polisi TAI2: Isrannu Eiddo Presennol i Fflatiau Hunangynhwysol a Thai Amlbreswyl (HMOs)<br><br>Gofynnodd Horizon am i'r polisi hwn gael ei ddiwygio i'w gwneud yn glir na fyddai'n berthnasol i lety gweithwyr adeiladu dros dro | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI3 sy'n egluro'r polisiau a fydd yn berthnasol i lety gweithwyr adeiladu dros dro, ac a fydd yn disodli'r pwynt hwn. |
| 38 | NF- | Polisi TAI3 Llety i Weithwyr Adeiladu Dros Dro<br><br>Ystyria Horizon yr ymdrinnir yn fwy priodol â Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro a gyflenwir mewn cysylltiad â Phrosiect Wylfa Newydd fel rhan o gyfres o bolisïau sy'n nodi'r ffordd y bydd datblygiadau cysylltiedig yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, naill ai lle mai hwy yw'r | Cytunodd y partïon y bydd diwygiad yn cael ei gynnig i addasu geiriad TAI3 fel ei fod yn darllen fel a ganlyn (sydd eisoes yn cynnwys y newidadau a wnaed gan y Newidiadau â Ffocws):<br><br>POLISI TAI3: LLETY DROS DRO ARDDULL CAMPWS I WEITHWYR |

awdurdod sy'n penderfynu, neu lle maent yn ymgyngoreion ar gyfer datblygiadau sy'n cael eu dwyn ymlaen drwy DCO. Yn lle'r polisi hwnnw, fodd bynnag, maent yn cynnig geiriad diwygiedig ar gyfer Polisi TAI3 fel a ganlyn:

***"*POLISI TAI3: LLETY I WEITHWYR ADEILADU DROS DRO** Yn eu rôl fel awdurdodau sy'n penderfynu ar ddatblygiadau cysylltiedig, neu lle maent yn ymgyngoreion ar gyfer cais DCO, **cefnogir** cynigion ar gyfer ~~llety i weithwyr adeiladu dros dro~~ **Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ar raddfa fawr,** ar yr amod ei fod yn ffurfio rhan o'r ateb cyffredinol i ddarparu llety gweithwyr adeiladu dros dro ~~ac y bodlonir y meini prawf canlynol~~ **wedi ei leoli yn un o'r lleoliadau canlynol:**

1. ~~Bod y safle wedi ei leoli~~ **O** fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol a'u hadnabyddir o fewn Coeden Aneddleoedd y Cynllun, ac
2. Ei fod yn gymesur o ran graddfa i'r Ganolfan neu'r Pentref Gwasanaethol, ac
3. Na fydd yn rhagfarnu gallu'r Cyngor i gynnal cyflenwad tir parhaus sydd o leiaf 5 mlynedd ar gyfer tai parhaol hunangynhaliol, neu

**4. Safleoedd cyflogaeth dyranedig yn y Cynllun (Polisi CYF1), lle nad yw'r defnydd yn rhagfarnu'n erbyn gallu tymor hir y safle i gwrdd â gofynion cyflogaeth.**

~~Mewn amgylchiadau eithriadol, mewn mannau eraill~~ **Bydd s**afleoedd wedi eu lleoli mewn mannau eraill yn Ynys Môn **yn cael eu cefnogi**, os yw'r **cynigion yn cael eu cefnogi gan asesiad o opsiynau sy'n dangos yn gadarn addasrwydd y safle arfaethedig, yn cwmpasu:**

**i. Lefel briodol o asesiad perygl llifogydd;**

ADEILADU

Caniateir cynigion ar gyfer cynigion am lety dros dro arddull campws i weithwyr adeiladu ar yr amod eu bod yn ffurfio rhan o'r ateb cyffredinol i ddarparu llety gweithwyr adeiladu dros dro ac y bodlonir y meini prawf canlynol:

1. Bod y safle wedi ei leoli o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol a'u hadnabyddir o fewn Coeden Aneddleoedd y Cynllun, ac

2. Ei fod yn gymesur o ran graddfa i'r Ganolfan neu'r Pentref Gwasanaethol, ac

3. Na fydd yn rhagfarnu gallu'r Cyngor i gynnal cyflenwad tir parhaus sydd o leiaf 5 mlynedd ar gyfer tai parhaol hunangynhaliol, neu

4. mewn amgylchiadau eithriadol, mewn mannau eraill ar Ynys Môn os:

i. gall y datblygwr arddangos fod yna angen hanfodol a brofwyd ar gyfer y nifer a math o lety na ellir ei gwrdd o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol yn yr ardal leol unai drwy lety neu safle presennol neu drwy ail-ddefnyddio adeilad presennol;

ii. bod y llety yn cael ei ddarparu er mwyn cwrdd ag anghenion llety dros dro gweithwyr;

iii. mae'r safle yn hygyrch i lwybrau ludiant cyhoeddus, mannau gwaith, a seilwaith cymdeithasol allweddol;

iv. bod y safle'n integreiddio gyda'r strategaeth trafnidiaeth i'r Prosiect, yn hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy fel bo'n briodol;

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **ii. Manylion am sut mae’r safle yn integreiddio â strategaeth trafnidiaeth Prosiect Wylfa Newydd, yn hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy fel y bo’n briodol;**<br><br>**iii. Trosolwg o’r ystyriaethau amgylcheddol yn ymwneud â’r opsiynau safleoedd sydd wedi cael eu hystyried, gyda’r nod o ddarlunio sut y ceisiwyd osgoi effeithiau amgylcheddol andwyol;**<br><br>**iv. Graddau’r integreiddio â’r cymunedau agosaf, gan ystyried y potensial am fuddion o ddefnyddiau etifeddiaeth tymor hir.**<br><br>**Wrth ymateb i gynigion am lety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro newydd ar raddfa fawr i Brosiect Wylfa Newydd, ystyrir y raddfa y mae’r cais cynllunio yn cyflawni’r deilliannau a welir yn a) i k) isod:**<br><br>~~**i. gall y datblygwr arddangos fod yna angen hanfodol a brofwyd ar gyfer y nifer a math o lety na ellir ei gwrdd o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol yn yr ardal leol unai drwy lety neu safle presennol neu drwy ail-ddefnyddio adeilad presennol;**~~<br><br>~~**ii. bod y llety yn cael ei ddarparu er mwyn cwrdd ag anghenion llety dros dro gweithwyr;**~~<br><br>a. hygyrchedd y **safle** i lwybrau cludiant cyhoeddus, mannau gwaith a seilwaith cymdeithasol allweddol;<br><br>b. **darpariaeth** o safon foddhaol o lety a chyfleusterau hamdden cymunedol digonol ar y safle i gwrdd ag anghenion amwynder preswylwyr;<br><br>**c. darparu gwelliannau angenrheidiol i'r rhwydwaith trafnidiaeth er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar y gymuned ac ymwelwyr yn ymwneud â thagfeydd, ansawdd aer a diogelwch ar y ffyrdd;**<br><br>**d. osgoi, lleihau ac, os yw'n briodol, lliniaru effaith niweidiol ar asedau amgylchedd naturiol a hanesyddol, gan gynnwys safleoedd o** | v. bod llety o safon dderbyniol a chyfleusterau hamdden ac adloniadol cyfunol digonol yn cael eu darparu ar y safle i gwrdd ag anghenion mwynderol y preswylwyr;<br><br>5. Dylai'r cynnig gael ei lywio gan ystyriaeth o'r defnyddiau etifeddiaeth, fel bod buddsoddi mewn elfennau fel seilwaith, adeiladau, gweithiau ecolegol a thirwedd yn dod â manteision tymor hir oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, bod y Cyngor yn fodlon nad yw defnydd etifeddiaeth yn ymarferol nac yn briodol;<br><br>6. Bydd y cynnig yn cael ei asesu yn unol â'r polisi hwn ac â Pholisi PCYFF 1 a Pholisi ISA1, ond ni fydd yn ofynnol i gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â datblygu llety parhaol a manwerthu yng nghefn gwlad;<br><br>7. Lle byddai'r cynnig yn arwain at effeithiau neu ofynion ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol presennol (gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd), yn unol â Pholisi ISA1, darperir naill ai cyfleusterau ychwanegol neu gyfraniadau priodol ar gyfer datblygu neu wella cyfleusterau presennol oddi ar y safle o fewn Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaeth, oni bai y gellir dangos y dylai cyfleusterau ategol dros dro gael eu darparu ar y safle;<br><br>8. Bod gwelliannau priodol i'r rhwydwaith trafnidiaeth yn cael eu darparu i liniaru effeithiau andwyol ar gymunedau lleol a thwristiaeth;<br><br>9. Mae'r cynnig yn cyfrannu at greu cymuned gymysg, gynhwysol a chynaliadwy, ac nid yw’n achosi gor-grynhoad o ddefnydd o'r fath yn yr ardal leol neu niwed i amwynder preswyl neu’r ardal o gwmpas;<br><br>10. Os nad yw defnydd etifeddiaeth arall yn ymarferol, bydd y Cyngor yn mynnu bod adeiladau dros dro yn cael eu symud a<br><br>i. bod y tir wedi’i wasanaethu yn cael ei adael mewn cyflwr twt a thaclus ar ôl cael gwared ar y strwythurau, neu<br><br>ii. bod yr holl gyfleusterau gwaredu gwastraff, ffyrdd, mannau parcio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a'u gosodiad yn unol â pholisi cenedlaethol;**<br><br>**e. dylunio o ansawdd uchel sy'n amlwg yn ceisio lleihau unrhyw effaith andwyol ar gymeriad gweledol a thirwedd y cynigion ar yr ardal gyfagos ac mewn golygfeydd o aneddleoedd cyfagos; yn ogystal â gwarchod a, lle bo hynny'n ymarferol, gwella bioamrywiaeth drwy rwydweithiau seilwaith gwyrdd / glas;**<br><br>**f. osgoi, lleihau ac, os yw'n briodol, lliniaru unrhyw effaith niweidiol ar gydlyniad cymunedau lleol, iechyd a'r Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig;**<br><br>**g. gall yr adeiladau a'r cyfleusterau gael eu haddasu ar gyfer defnyddiau etifeddiaeth yn y dyfodol, neu, lle nad yw hynny'n ymarferol neu'n briodol, bydd yr adeiladau a'r cyfleusterau yn cael eu tynnu ymaith gan naill ai adael y tir wedi'i wasanaethu ac mewn cyflwr twt a thaclus, neu wedi ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol fel y cytunwyd gyda'r Cyngor;**<br><br>~~**5. Mae'r llety wedi ei ddylunio ar gyfer defnydd etifeddiaeth parhaol, oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, fod y Cyngor yn fodlon nad yw defnydd etifeddiaeth yn ddichonol neu'n briodol;**~~<br><br>h. Ei fod yn cydymffurfio â Polisi PCYFF1 a pholisïau sy'n ymwneud â'r defnydd arall yn y dyfodol, **pan fo defnydd o'r fath yn ffurfio rhan o'r cais sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor;**<br><br>i. Os mai darparu cartrefi hunangynhwysol parhaol yw'r defnydd etifeddiaeth a fwriedir i'r llety, **a bod y defnydd etifeddiaeth yn ffurfio rhan o'r cais sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor**, dylai'r cynnig ~~**wneud cyfraniad cadarnhaol i fynd i'r afael**~~ ymdrin ag amcanion tai fforddiadwy tymor hir y Cyngor yn unol â gofynion Polisi TAI9 a Pholisi TAI10;<br><br>j. Lle byddai'r cynnig yn arwain at effeithiau neu ofynion ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol presennol, yn unol â Pholisi ISA1, bydd naill ai | a chyfleusterau draenio yn cael eu tynnu oddi ar y safle'n barhaol a bod y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw cofrestr o'r holl weithwyr sy'n byw yn y llety ac i wneud y gofrestr hon ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor.<br><br>Eglurhad:<br><br>7.4.23 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i lety dros dro a ddarperir i weithwyr adeiladu sydd ei angen mewn cysylltiad â phrosiectau adeiladu ar raddfa fawr, e.e. Wylfa Newydd neu unrhyw waith arall sy'n gofyn am nifer fawr o gweithlu preswyl dros dro / symudol. Bydd angen y llety am 6 mis neu fwy. Bydd yr hyd amser yn cael ei gyfyngu i uchafswm cyfnod y cytunwyd arno gan y Cyngor a bydd yn cael ei bennu gan yr amser sydd ei angen i adnewyddu'r adeilad / strwythur neu adfer y safle ar ddiwedd y cyfnod. Mae'r Cyngor yn annog llety sydd wedi'i gynllunio i ganiatáu newid i ddefnydd etifeddiaeth amgen.<br><br>7.4.23A Byddai'r rhain ddatblygiadau a ddarperir yn arbennig, ar arddull campws, gan gynnwys unedau llety gweithwyr sengl modiwlaidd en suiteunedau, wedi'u trefnu mewn blociau sy'n rhannu cyfleusterau cymunedol, megis cegin, lle bwyta a lolfa. Byddai'r adeilad modiwlaidd yn caniatáu hyblygrwydd i ddiwallu newidiadau yn y galw dros amser.<br><br>7.4.23B Mae'r Cyngor yn ffafrio safleoedd a leolir o fewn neu wrth ymyl y Canolfannau neu Wasanaethau a nodir er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy (gan gynnwys mynediad at gysylltiadau cludiant cyhoeddus), integreiddio â chymunedau (oni bai na fyddai graddfa'r datblygiad yn gymesur â'r Ganolfan neu Bentref gwasanaethau), ac i hwyluso defnyddiau etifeddiaeth tymor hir buddiol. Gallai hyn alluogi effeithlonrwydd o ran hygyrchedd i gyfleusterau lles, hamdden ac adloniant yn yr aneddleoedd agosaf. Lle bo angen ac yn briodol, gallai'r ateb i sicrhau bod gofynion y preswylwyr yn cael sylw gynnwys buddsoddiad i uwchraddio cyfleusterau yn yr aneddleoedd agosaf. Fel |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyfleusterau ychwanegol neu gyfraniadau priodol ar gyfer datblygu neu wella cyfleusterau presennol o fewn Canolfannau neu'r Pentrefi Gwasanaethau yn cael eu darparu, oni bai y gellir dangos y dylai cyfleusterau dros dro gael eu darparu mewn mannau eraill;<br><br>k. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd, a'r defnydd etifeddiaeth ~~a **gytunwyd**~~, **os yw hwn yn ffurfio rhan o'r cais sy'n cael ei ystyried,** yn cyfrannu at greu cymuned gymysg, gynhwysol a chynaliadwy, ac nid ydynt yn achosi gor-grynhoad o ddefnydd o'r fath yn yr ardal leol neu niwed i amwynder preswyl neu'r ardal o gwmpas;<br><br>Os nad yw defnydd **etifeddiaeth** arall yn ymarferol, **neu os nad yw'n cael ei gynnig fel rhan o'r cais sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor,** bydd y Cyngor yn mynnu bod adeiladau dros dro yn cael eu symud a<br><br>i. bod y tir wedi'i wasanaethu yn cael ei adael mewn cyflwr twt a thaclus ar ôl cael gwared ar y strwythurau, neu<br><br>ii. bod yr holl gyfleusterau gwaredu gwastraff, ffyrdd, mannau parcio a chyfleusterau draenio yn cael eu tynnu oddi ar y safle'n barhaol a bod y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Rhoddir caniatâd cynllunio ~~**bob amser yn unig yn destun i**~~ am gyfnod cyfyngedig o amser **yn gyson â'r fethodoleg adeiladu a graddoli a'r Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu i Brosiect Wylfa Newydd** ~~**er mwyn galluogi'r Cyngor i adolygu tueddiad cyffredinol anghenion llety cysylltiedig y prosiect adeiladu.**~~ Bydd mecanweithiau cynllunio priodol yn cael eu cymhwyso i sicrhau'r defnydd etifeddiaeth a gytunwyd, **os caiff ei gynnig fel rhan o'r cais sy'n cael ei ystyried gan y Cyngor.**<br><br>Bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw cofrestr o'r holl weithwyr sy'n byw yn y llety ac i wneud y gofrestr hon ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor." | arall, gallai'r safleoedd hyn fod yn fwy hunangynhwysol, gan ddarparu lles, chwaraeon, adloniant a chyfleusterau hamdden ar y safle, yn ogystal â phwyntiau codi gan fysiau ar gyfer y deiliaid. Byddai gwasanaethau eraill, e.e. ffreutur, gwasanaethau gweinyddol, hefyd yn ffurfio rhan o'r datblygiad a gwmpesir gan y Polisi hwn.<br><br>7.4.23C Tra mai Polisi TAI 3 (a PCYFF 1 a Pholisi ISA1) fyddai'r polisïau perthnasol i'r math hwn o lety dros dro a ddarperir i weithwyr adeiladu, ni fyddai'r Polisi hwn yn berthnasol i gynnig am Dai Parhaol, er enghraifft tai a fyddai yn y lle cyntaf cael eu hisrannu i ganiatáu eu defnydd gan weithwyr adeiladu, ac yna eu haddasu i fod yn gartrefi i deuluoedd neu aelodau eraill o gymunedau lleol. Byddai Polisïau TAI 14 i TAI 17 yn gymwys i'r math hwn o ddarpariaeth, yn dibynnu ar leoliad y safle, yn ogystal â Pholisïau perthnasol eraill, e.e. Polisi TAI 9 - Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy (i'w defnyddio ar ôl eu defnyddio gan weithwyr adeiladu); Polisi ISA 5 - Darparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd; Polisi ISA 1 - Darpariaeth Seilwaith. Ni fyddai Polisi TAI3 yn berthnasol ar gyfer unrhyw fath o lety pwrpasol sydd wedi ei ddynodi fel tai myfyrwyr neu sydd wedi eu dynodi ar gyfer ei ddefnyddio gan bobl hŷn neu a fyddai'n addas ar gyfer oedolion ifanc sydd ag incwm cyfyngedig. Mae Polisi TAI6 yn darparu peth o'r fframwaith ar gyfer ymdrin â chynigion ar gyfer llety myfyrwyr pwrpasol.<br><br>7.4.24 Mae gan y math hwn o lety'r potensial i liniaru pwysau ar y stoc o dai rhent preifat neu dai marchnad agored a llety twristiaid mewn cymunedau.<br><br>7.4.25 Amcan y Polisi hwn yw cyfrannu tuag at gyflawni'r cydbwysedd briodol o atebion i ymdrin â'r angen i letya nifer fawr o weithwyr adeiladu ac felly drwy hwyluso'r cyflenwad o dai sydd yn addas ar gyfer cymunedau lleol yn ystod oes y Cynllun.<br><br>7.4.26 Gall creu cymunedau cymysg, cynaliadwy a chynhwysol gael ei effeithio'n andwyol ble mae llety pwrpasol ar raddfa fawr i letya gweithwyr adeiladu dros dro yn cael eu cynnig. Mae'r raddfa hon o lety yn creu crynodiad o breswylwyr cymharol dros dro, ac o bosib na fydd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hyn yn cael ei gefnogi mewn cymuned sefydledig. Mae pryderon penodol yn gallu cynnwys pwysau ar y gwasanaethau a chyfleusterau sydd yn cwrdd ag anghenion preswylwyr mwy tymor hir, yn enwedig felly cyfleusterau a gwasanaethau allweddol megis meddygfeydd, deintydd, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd ac ysgolion. Mae’r Cynghorau wedi ymrwymo i gefnogi cymunedau preswyl yn ardal y Cynllun. Bydd pob cais am lety gweithwyr dros dro i weithwyr adeiladu yn cynnwys asesiad ar gyfer y cynnig, gan gynnwys:<br><br>i. Asesiad manwl o gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau cynllunio atodol perthnasol;<br><br>ii. disgrifiad manwl o’r angen ar gyfer y cyfleuster;<br><br>iii. sut mae’n cydymffurfio â *strategaeth gyhoeddedig yr hyrwyddwr i letya ei weithwyr adeiladu*; gyda Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu<br><br>iv. manylion o’r pwysau mae’r cynnig yn ei roddi ar seilwaith ffisegol a chymunedol;<br><br>v. maint y budd i’r gymuned leol o’r cynnig; a<br><br>vi. datrysiad dangosadwy ar gyfer diwedd oes strwythur neu adeilad, oni bai y gellir dangos yn glir nad yw defnydd etifeddiaeth yn ddichonol.<br><br>7.4.27 Lle mae cynigion ar gyfer llety dros dro llety a adeiladwyd i bwrpas, tai aml-feddiannaeth neu dai gyda chyfleusterau a rennir ar gyfer gweithwyr adeiladu yn debyg o effeithio’n andwyol ar falans y gymuned oherwydd eu graddfa neu yn sgil crynodiad presennol, gall y Cynghorau argeisio mesurau lliniaru mewn perthynas â Pholisi ISA1. Mewn achosion lle mae'r ateb i ymdrin â gofynion y preswylwyr yn ymwneud â darparu cyfleusterau ar y safle, byddai Polisïau sy'n ymdrin â'r defnydd tir perthnasol yn gymwys (e.e. Polisi MAN 6 Manwerthu yn y Cefn Gwlad; Polisi ISA 2 Cyfleusterau Cymunedol), oni bai bod y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyfleusterau ategol yn adeiladau dros dro a ddyluniwyd ar y cychwyn i gael eu tynnu ymaith o'r safle.<br><br>7.4.28 Ble na ellir sicrhau mesurau lliniaru, bydd y Cynghorau'n gwrthod cynigion a fydd yn amharu ar gydbwysedd y gymuned neu a fydd yn atal anghenion y gymuned leol rhag cael eu cwrdd.<br><br>7.4.29 Bydd y Cynghorau'n disgwyl y bydd y datblygwr yn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad y llety pwrpasol ac unrhyw gyfleusterau cysylltiol i'r llety (e.e. cyfleusterau hamdden) yn cael eu datblygu ar sail gynaliadwy a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi o'r cychwyn i gynigion nodi'r defnyddiau etifeddiaeth/ defnydd ôl ddefnydd i'w hystyried o'r cychwyn. Ble nad yw defnydd etifeddiaeth derbyniol o dan bolisïau eraill yn ddichonol, ond fod y bwriad fel arall yn dderbyniol, caiff y caniatâd cynllunio ei roi am gyfnod penodol hefo mecanwaith e.e. amod cynllunio neu rwymedigaeth cynllunio / Cytundebau adran 106, i sicrhau bod unrhyw adeiladau dros dro, gwaith, defnydd o'r tir neu ddatblygiadau eraill, yn cael eu clirio oddi ar y safle neu yn dod i derfyn a bod y safle yn cael ei adfer yn unol â chynllun blaenorol sydd wedi ei ganiatáu, neu fod plotiau wedi'i gwasanaethu yn cael eu cadw a bod y dirwedd yn cael ei dirlunio yn unol â chynllun tirlunio sydd wedi ei gytuno. Gall y Cyngor ofyn am bond i sicrhau bod y cynllun tirlunio yn cael ei gynnal. |
| 39 | NF- | Rhestr termau.<br><br>Ceisiodd Horizon gael ychwanegu'r diffiniad canlynol yn y Rhestr Termau, o dan y cofnod 'Nodiadau Cyngor Technegol':<br><br>**"TERM: Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ACRONYM (lle bo'n briodol): TCWA, Disgrifiad: "Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro (TCWA): Mae'r term hwn yn disgrifio'r safleoedd y tu allan i Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd lle bydd gweithwyr adeiladu dros dro sydd eu hangen i adeiladu Prosiect Wylfa Newydd yn cael eu lletya. Bydd y rhain yn gyffredinol, ond nid yn gyfyngedig i, ddatblygiadau ar arddull campws yn cynnwys unedau ystafell wely sengl modiwlaidd a chyfleusterau cysylltiedig a rennir megis gwasanaethau arlwyo, gofal** | Datryswyd.<br><br>Nid yw Horizon yn mynd â'r pwynt hwn ymlaen oherwydd cytunodd y partïon ar ddiwygiad i Bolisi TAI3 a fydd yn disodli'r pwynt hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **iechyd a golchi dillad.”** | |

## Atodiad 1 - Rhestr y Cynghorau o’r prif bwyntiau anghytundeb.

1 **CADERNID Y CYNLLUN**

1.1 Mewn ymateb i sylwadau Horizon ar y newidiadau â ffocws, nid yw’r Cynghorau yn cytuno nad yw’r cynllun i'w archwilio yn gadarn, ac anghytunir ei fod angen ei ddiwygio’n sylweddol. Nid yw'r Cynghorau yn cytuno bod peidio â chynnwys cyfres o bolisïau penodol i’r Wylfa yn gwneud y cynllun yn fregus. Haera’r Cynghorau nad oes unrhyw ofyniad o gwbl i roi sylw unigol i ddatblygiadau a ragwelir yn y cynllun yn y modd a awgrymwyd gan sylwadau Horizon ar y newidiadau â ffocws er mwyn gwneud y cynllun yn gadarn.

2 **EGWYDDOR O GYFRES O BOLISÏAU PENODOL I WYLFA NEWYDD**

2.1 Mae'r Cynghorau wedi datblygu eu polisïau cynllunio i adlewyrchu pwysigrwydd Prosiect Wylfa Newydd i fusnesau, cyflogaeth a phobl leol o fewn ardal y Cynllun. Mae'r Cynllun yn cynnwys Gweledigaeth ac Amcanion trosfwaol, lle gwelir cefnogaeth y Cynghorau i’r Prosiect, a’u dull o ymdrin â’r Prosiect. Caiff yr Amcanion eu grwpio gyda'i gilydd yn ôl yr heriau y mae ardal y Cynllun yn wynebu - pum thema. Wedyn mae prif gorff y Cynllun Adnau yn llifo o'r Weledigaeth a'r Amcanion, gan nodi'r Strategaeth a Pholisïau ar gyfer datblygu ardal y Cynllun yn y dyfodol i gwrdd â'r Weledigaeth a'r Amcanion. Mae'r Cynllun yn grwpio Polisïau Strategol a Manwl yn ôl y themâu uchod. Felly, ymgorfforir y Polisïau Strategol a Manwl a fyddai'n berthnasol i'r datblygiad er mwyn cefnogi Prosiect Wylfa Newydd yn adrannau thematig perthnasol y Cynllun, e.e. mae Adran 7.3 Cyflenwad ac Ansawdd Tai yn cynnwys polisïau strategol a manwl a fyddai'n berthnasol i geisiadau am ddatblygiad sy'n ymwneud â darparu llety dros dro neu barhaol i'w ddefnyddio gan weithwyr adeiladu.

2.2 Felly ystyria'r cynghorau bod y Cynllun yn cynnwys cyfres o Bolisïau Strategol a manwl ymgorfforedig, sy'n darparu fframwaith cadarn i hwyluso'r datblygiad angenrheidiol i gefnogi Wylfa Newydd mewn modd sy'n cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun. Cymerodd y Cynghorau y penderfyniad strategol i integreiddio'r datblygiad sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd i bolisïau cyffredinol yn hytrach na chreu polisïau annibynnol, gan mai dyma sy’n cael ei ystyried fel y dull mwyaf effeithiol. Mater o raddfa yn hytrach nag egwyddor yw’r materion ar gyfer pob math o ddatblygiad yn gyffredinol. Er enghraifft, bydd llety gweithwyr dros dro angen cydymffurfio â pholisïau ar fynediad, cynaliadwyedd, cyfleusterau cymunedol a chadwraeth natur, yn yr un modd ag unrhyw gynigion llety arall a byddai angen cyfiawnhau gwyriadau lle y gellir ceisio rhai mewn unrhyw achos penodol. Mae integreiddio yn caniatáu i CSYM wneud penderfyniadau effeithiol yn unol â phob un o'r ystyriaethau polisi perthnasol.

2.3 Ni wnaeth y Cynghorau gynnwys, ac felly nid oedd yn asesu effeithiau, cyfres o bolisïau penodol i’r Wylfa. Pe byddai polisïau newydd yn cael eu cyflwyno ar y pwynt hwn, byddai angen ail-redeg yr asesiadau effaith, gan arwain at oedi diangen yn y broses.

2.4 Fel rhan o baratoi’r datganiad hwn, mae'r Cynghorau a Horizon wedi cytuno i gynnig newid i bolisi PS9 sy’n ymdrin â sylwedd yr WNP4 arfaethedig. Mae'r Cynghorau yn deall bod Horizon wedi dewis peidio â mynd ar ôl cynnwys Polisïau WNP1, 2 a 3 arfaethedig sy’n benodol i’r Wylfa yn eu datganiadau gwrandawiad, ac ni fyddai'r Cynghorau felly yn cynnig gwneud unrhyw gyflwyniadau manwl ar gynnwys polisïau hynny.

3 **Y DIWYGIADAU A GYNIGIR GAN HORIZON I'R CYNLLUN**

3.1 Nid oes angen na gofyniad i nodi mewn unrhyw bolisi y gellir gwyro oddi wrtho mewn unrhyw achos penodol, lle byddai gwyriad o'r fath yn cael ei gyfiawnhau gan ystyriaethau perthnasol; mae hyn yn fater o gyfraith ac nid oes angen ei ailadrodd ym mhob polisi. Ymddengys ceisiadau Horizon i eithrio unrhyw ddatblygiad sy'n gysylltiedig â’r Wylfa o bolisïau amrywiol nad ydynt wedi cymryd ystyriaeth lawn o hyn. Mae'r Cynghorau o'r farn ei bod yn fwy priodol i achos gael ei wneud ar gyfer gwyriad mewn ceisiadau unigol nag i ddatgymhwyso polisïau cyfan yn y cynllun er budd un datblygwr.

3.2 Mae'r diwygiadau arfaethedig yn ceisio creu "hyblygrwydd" ar y defnydd o safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth, ac a fyddai’n arwain at greu rhagdybiaeth o blaid defnyddio safleoedd cyflogaeth ar gyfer defnydd dros dro sy'n gysylltiedig â’r Wylfa. Nid oes cyfyngiad ar y defnydd dros dro a ganiateir gan y newid arfaethedig hwn, a byddai’n arwain at gynnwys tir cyflogaeth yn y rhestr o safleoedd lle cefnogir llety gweithwyr dros dro. Byddai hyn yn tanseilio un o ddyraniadau allweddol y cynllun ac mae’n anghymesur, gan y byddai'r newidiadau'n berthnasol i bob safle, tra deellir mai pryderon am un safle yn unig sydd gan Horizon.

3.3 Nid yw rhagdybiaeth o lety gweithwyr dros dro arddull campws mawr fel y prif ddull llety, a chreu rhagdybiaeth o gefnogaeth i gynigion o'r fath, yn cydymffurfio ag amcanion y cynllun na'r canllawiau cynllunio atodol presennol.

## 4 GWANHAU POLISÏAU SY'N ANELU AT DDIOGELU IAITH GYMRAEG

4.1 Mae diogelwch a thwf yr iaith Gymraeg yn amcan strategol y Cynghorau yn eu cyfanrwydd, ac mae’n rhan o nodau cyffredinol y weledigaeth ar gyfer yr ardal. Mae hyrwyddo’r Iaith Gymraeg yn llinyn arian sy'n rhedeg drwy bob un o'r cynlluniau a pholisïau a hyrwyddir gan y Cynghorau, a methodd Horizon â rhoi ystyriaeth briodol o bwysigrwydd lleol hyn yn eu sylwadau a'u diwygiadau arfaethedig. Mae’r dileu meini prawf sy'n darparu ar gyfer gwrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed i gydbwysedd ieithyddol cymuned a dileu rhwymedigaeth gadarnhaol i hyrwyddo'r Gymraeg yn niwygiadau arfaethedig Horizon yn dangos nad ydynt wedi rhoi digon o bwysau i’r amcan allweddol hwn, ac nad ydynt wedi deall ei bwysigrwydd i'r gymuned letyol o’r elfen hon o'r cynllun.

## 5 GOFYNION BUDDION ETIFEDDIAETH

5.1 Mae darparu buddion etifeddiaeth lle bynnag y bo'n bosibl yn nod allweddol y Cynghorau wrth sicrhau'r canlyniad cynllunio gorau ar gyfer y gymuned letyol. Mae graddfa ac aflonyddwch lefel y datblygiad arfaethedig yn golygu ei bod yn ofynnol iddo gael ei gydbwyso gan y canlyniadau cynllunio tymor hir gorau y gellir eu cyflawni ar gyfer pob safle. Mae effaith tymor hir ar ôl defnydd dros dro yn ystyriaeth berthnasol ac ni all fod yn ddewisol, dylai'r datblygwr fod â chynllun etifeddiaeth clir ar gyfer pob safle neu gyflwyno cyfiawnhad fesul achos pam nad oes unrhyw ddefnydd etifeddiaeth priodol yn ymarferol. Nid yw'n dderbyniol i'r Cynghorau bod defnydd ôl-ddatblygu safleoedd yn dod yn ystyriaeth berthnasol dim ond lle mae'r datblygwr yn ei gynnig, ac felly’n disgwyl iddo gael ei gyfrif o blaid y datblygwr, ond nid mewn unrhyw achos arall.

**Atodiad 2 – Rhestr Horizon o’r prif bwyntiau anghytundeb.**

Mae'r atodlen yn nodi'r meysydd anghytundeb sy’n weddill rhwng y Cynghorau a'r Horizon yn seiliedig ar y gwaith papur a gyflwynwyd i'r Archwiliad.

1 **PWRPAS YR ATODIAD HWN**

1.1 Paratowyd yr atodiad hwn yn wreiddiol fel traciwr materion i gynorthwyo'r Partïon i adnabod materion lle nad oeddent yn cytuno ac i ganiatáu trafodaeth o'r pwyntiau hynny gyda'r bwriad o ddatrys unrhyw rai y gellir cytuno arnynt a lleihau’r nifer o faterion o wahaniaeth rhwng y partïon cyn y gwrandawiadau. Gwnaed cryn dipyn o gynnydd gyda'r mwyafrif o'r materion wedi’u datrys fel y nodir yn y datganiad tir cyffredin. Mae'r atodiad hwn yn cynrychioli'r gwahaniaeth sy'n weddill rhwng y Partïon.

2 **PRIF BWYNTIAU O ANGHYTUNDEB**

2.1 Roedd cyflwyniad gwreiddiol Horizon ar y Cynllun Adnau yn cynnig creu cyfres o bolisïau yn benodol i’r Wylfa fel sail i Bolisi PS9; WNP1: Lleoliad Datblygiadau Cysylltiedig, WNP2 - Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ar Raddfa Fawr, WNP3 - Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ac WNP4 - Gweithiau Cynnar. Mae'r Cynghorau wedi gwrthod mewnosod y gyfres o bolisïau a awgrymwyd. Mae’r Cynghorau, ar ôl ystyried y sefyllfa, yn parhau i ystyried nad oes gofyniad i gynnwys y polisïau a awgrymwyd, sy'n dyblygu darpariaethau eraill. Ceir polisïau penodol i’r Wylfa lle bo angen ac nid oes unrhyw resymeg dros geisio gwahanu datblygiadau sy’n gysylltiedig â’r Wylfa oddi wrth ddatblygiadau eraill o'r un math. Mae hefyd yn farn y Cynghorau bod y polisïau arfaethedig wedi’u geirio'n rhy llac i ddarparu lefel ddigonol o reolaeth dros y datblygiad cysylltiedig a bod y polisïau penodol i bwnc yn well.

2.2 Ystyria Horizon bod maint, hyd a chyd-destun cenedlaethol Prosiect Wylfa Newydd yn cyfiawnhau'r angen am gyfres glir o bolisïau penodol i Wylfa Newydd wedi’u hymgorffori yn y Cynllun Datblygu, yn hytrach na dibynnu ar bolisïau Cynllun Datblygu nad ydynt wedi'u cyfeirio'n benodol at ddatblygiad o’r math sy'n cael eu cynnig gan Horizon fel Datblygiadau Cysylltiedig, a CCA Wylfa.

2.3 Mae Horizon yn pryderu nad yw'r CDLl ar y Cyd sy'n dod i'r amlwg yn darparu fframwaith polisi digon clir i gefnogi a darparu rheolaeth angenrheidiol ar gyfer elfennau sylweddol o'r Prosiect. Mae'n hanfodol bod cyfres glir o bolisïau y gall Cynghorau eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau.

2.4 Am y rhesymau a nodir yn natganiad gwrandawiad Horizon 1, mae Horizon wedi penderfynu peidio â mynd ar ôl polisïau penodol i’r Wylfa yn weithredol bellach, ond yn hytrach maent yn canolbwyntio ar geisio’r eglurhad angenrheidiol i bolisïau cynllunio unigol i alluogi gwneud eithriadau lle bo angen mewn perthynas â datblygiadau cysylltiedig arfaethedig Horizon.

**Nodiadau ar y tabl:**

Colofn 1: Rhif.

Colofn 2: Yn rhoi cyfeirnod Polisi yn ymwneud â'r pwynt sy'n weddill, a'r cyfeiriadau at y rhif Newid â Ffocws (yn destun i golofn 3).

Colofn 3: Lle ceir "Ie**"** yn y golofn hon golyga hyn y cafwyd ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Horizon yn Newidiadau â Ffocws yr UPCC. Lle ceir "Na", golyga hyn **na** chafwyd ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Horizon yn Newidiadau â Ffocws yr UPCC.

Colofn 4: Nodi'r newidiadau a geisiwyd gan Horizon fel rhan o drafodaethau SOCG.

Colofn 5: Nodi ymateb UPCC fel rhan o drafodaethau SOCG, gyda'r geiriad arfaethedig mewn coch.

Colofn 6: Nodi ymateb Horizon i'r UPCC

Colofn 7: Nodi'r sefyllfa derfynol rhwng y partïon yn dilyn cyfarfodydd a thrafodaethau pellach.

| | Cyf Polisi | Newid â Ffocws? | Newidiadau a geisiwyd gan Horizon | Ymateb y Cynghorau | Sylwadau Horizon | Sefyllfa Derfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Polisi: PS1<br><br>NF15<br><br>Rhif newid Horizon:13 | Ie | Tra bod Polisi PS1: 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig' wedi cael ei ddiwygio (Cyf Newid â Ffocws: NF 15), mae Horizon yn dal i ystyried yn absenoldeb y CCA mae'n dal i fod yn aneglur sut y bydd y prawf y polisi yn cael ei gymhwyso. Fel y'i diwygiwyd, ystyrir bod y Polisi Strategol hwn yn dal i beri rhwystr posibl i dwf economaidd a dyheadau eraill yn y Cynllun. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer ceisiadau TCPA cysylltiedig, a all gynnwys cynigion preswyl. Bwriedir dileu maen prawf (c) - nid yw'n glir pwy sy'n gwneud asesiad bod unrhyw gynnig (gynigion) yn darparu "ystod ddigonol o feintiau a mathau o unedau tai". Mae rhan (b) yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw ddatblygiad preswyl sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a aseswyd fel rhan o baratoi'r CDLl ar y Cyd.<br><br>Hefyd ystyria Horizon that Rhan 2 nad yw Rhan 2 o'r Polisi PS1 arfaethedig yn ddigon penodol ac mae'n awgrymu cyflwyno trothwyon ar gyfer safleoedd ar hap. Awgrymir hefyd y dylai'r gofyniad hwn ymwneud â safleoedd ar hap o fewn ardaloedd a nodwyd gan yr ACLl fel ardaloedd lle'r ystyrir bod yr iaith yn arbennig o sensitif neu o arwyddocâd arbennig a lle maent yn ymwneud â datblygiad mawr. Ystyrir bod rhaid diwygio'r paragraff hwn yn unol â geiriad a gynigiwyd yn flaenorol er mwyn adeiladu mwy o hyblygrwydd i mewn a chwrdd â'r prawf cadernid "A fydd y cynllun yn cyflenwi", gan fod angen i'r cynllun fod yn ddigon hyblyg i fod yn effeithiol. | **Derbyniwyd yn rhannol**<br><br>Mae amddiffyn a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn un o amcanion allweddol y Cynllun. Credir y byddai derbyn y newidiadau a awgrymir yn gwanhau'r polisi'n sylweddol, gan arwain at lai o allu gan y cynllun i ymdrin â'r amcanion allweddol ar gyfer lles yr iaith. Byddai cyfeirio at is-ardaloedd yn lleihau cymhwyster y Polisi'n ofodol.<br><br>byddai cael gwared ar faen prawf 4 yn tanseilio holl amcan y polisi. Ni fyddai'r geiriad a awgrymir ar gyfer maen prawf 5 yn adlewyrchu polisïau'r Cynghorau. Nid oes angen yr ychwanegiad oherwydd y byddai'r galw am fesurau lliniaru yn dod i'r amlwg ar sail achos wrth achos. Nid yw'n angenrheidiol i bob polisi yn y Cynllun ddatgan y gallai mesurau lliniaru fod yn angenrheidiol.<br><br>Cytunir nad yw geiriad maen prawf 1(c) yn ddigon manwl. I | **Cytunwyd (yn rhannol)**<br><br>Cytunwyd ar Rannau 1(c) a 2 a newid i ran 5.<br><br>**Ni chytunwyd (o ran)**<br><br>Ni chytunwyd ar ran 4.<br><br>Nid oes unrhyw un o'r sylwadau gwreiddiol Horizon wedi eu hymgorffori ac mae newidiadau arfaethedig y Cyngor yn ymwneud â thestun cefnogol yn unig nid polisi cynllunio.<br><br>Wrth benderfynu ar gydymffurfiad datblygiad arfaethedig gyda Chynllun, y ffocws cywir yw ar bolisïau manwl y cynllun i'r datblygiad arfaethedig perthnasol. Mae'r testun ategol yn rhoi testun eglurhaol/ cefnogol a/neu gyfiawnhad rhesymegol o'r polisïau. Mae testun cefnogol yn berthnasol i ddehongli polisi ond nid yw'n ffurfio rhan o bolisi | **Ni chytunwyd (o ran)**<br><br>Ni chytunwyd o ran maen prawf 4. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Newid geiriad diwygiedig Polisi PS1 fel a ganlyn:<br><br>“POLISI STRATEGOL PS1: YR IAITH GYMRAEG A’R DIWYLLIANT CYMREIG<br><br>Bydd y Cynghorau’n hyrwyddo a chefnogi’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:<br><br>1. Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau’r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig yn disgyn i mewn i un o’r categorïau canlynol:<br>a) Datblygiad **twristaidd**, diwydiannol neu fasnachol sy’n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m sg. neu fwy **ar safleoedd heb eu dyrannu**; neu<br>b) Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na’r targed tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 14 – 18; neu<br>~~c) Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap nad yw’n cynnig darparu ystod ddigonol o unedau tai o ran eu maint a mathau~~;<br><br>2. Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau’r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig:<br>a) ar safle hap **mewn ardal a nodwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel ardal lle ystyrir bod y Gymraeg o sensitifrwydd neu** | oresgyn hyn, credir y dylai’r maen prawf a'r eglurhad i'r polisi gael eu diwygio trwy gyfeirio at CCA - Math a chymysgedd o dai. Gweler y newid isod.<br><br>POLISI STRATEGOL PS1: Yr Iaith Gymraeg a’r Diwylliant Cymreig Bydd y Cynghorau’n hyrwyddo a chefnogi’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:<br><br>1. Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau’r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig yn disgyn i mewn i un o’r categorïau canlynol:<br><br>a. Datblygiad, diwydiannol neu fasnachol sy’n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m sg. neu fwy; neu<br><br>b. Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na’r targed tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 14 – | cynllunio.<br><br>Mae Horizon hefyd yn nodi bod TAN 20 mabwysiedig yn gwneud yn glir ym mharagraff 4.1.2, bod rhaid, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol lle gall anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg fod yn ystyriaeth berthnasol, wneud hynny fel yn achos pob cais cynllunio arall ar seiliau cynllunio yn unig, a bod yn rhesymol.<br><br>Hefyd mae paragraff 4.13.5 ym Mholisi Cynllunio Cymru yn cadarnhau, os oes angen, y gall asesiadau effaith iaith ond cael eu gwneud mewn perthynas â datblygiad mawr nad yw wedi ei ddyrannu mewn, neu yn cael ei ragweld gan, gynllun datblygu arfaethedig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd arbennig i’r iaith.<br><br>Nodir bod y testun ategol newydd ym mharagraff 7.1.4 yn datgan, *"y bydd y CCA Creu a Chadw* | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **arwyddocâd arbennig**; a<br>~~b) yn mynd i ddenu neu roi llety i lawer mwy o bobl na ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisïau a chynigion y Cynllun;~~<br>**b) Datblygiad preswyl o 20 uned neu fwy ar safleoedd mewn canolfannau isranbarthol neu ganolfannau gwasanaeth trefol a 10 uned neu fwy mewn canolfannau gwasanaeth lleol, pentrefi gwasanaeth, pentrefi lleol/ gwledig/ arfordirol a chlystyrau; neu**<br>**c) Datblygiad twristaidd, masnachol neu ddiwydiannol gydag arwynebedd o 2000 m. sg. neu fwy.**<br>3. Defnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny iddynt;<br><br>~~4. Gwrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned~~<br><br>5. ~~Ei gwneud yn ofynnol~~ Annog, lle bo'n briodol, ~~yr holl~~ arwyddion gweithredol gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes i fod yn ddwyieithog;<br><br>6. Gosod disgwyliad y bydd enwau lleoedd Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau ~~tai a~~ strydoedd.<br><br>**Mewn amgylchiadau priodol, sicrheir lliniaru yn erbyn unrhyw effeithiau andwyol drwy amod cynllunio a / neu drwy ofyn am gyfraniad ariannol trwy gytundeb adran 106".** | 18; neu<br><br>c. Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol perthnasol eraill a gynigir i ddarparu ystod ddigonol o unedau tai o ran eu maint a mathau;<br><br>2. Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, lle mae'r datblygiad arfaethedig ar safle ar hap tu allan i ffiniau datblygu ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu; a **~~Yn mynd i ddenu neu roi llety i lawer mwy o bobl na ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisïau a chynigion y Cynllun;~~**<br><br>**3.** Defnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y | *Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy yn disgrifio'r arwyddion y disgwylir iddynt fod yn ddwyieithog."*<br>Awgrymir y dylai'r dull mwy hyblyg a amlinellir yn y testun ategol newydd gael ei adlewyrchu ym Mholisi PS1. | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwneir cyfraniad i **liniaru'r effeithiau hynny**; ~~iddynt~~<br><br>**4.** Gwrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned;<br><br>**5.** ~~Annog~~ **Ei gwneud yn ofynnol i'r holl arwyddion gweithredol** gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes fod yn ddwyieithog;<br><br>**6.** ~~Annog y defnydd o~~ **Gosod disgwyliad** y bydd enwau lleoedd Cymraeg **yn cael eu defnyddio** ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.<br><br>**Eglurhad:**<br><br>**7.1.4 Bwriedir i'r holl fesurau a ddisgrifir yn fras yn y paragraffau cyn y Polisi hwn gefnogi cymunedau a'r iaith Gymraeg. Mae amcanion allweddol y Cynllun yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo cymunedau cytbwys, cynaliadwy a nodedig. Mae hyn yn golygu bod y Cynllun yn cynnwys** | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
